



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## **Gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy ar Ddatblygiadau Newydd**

Crynodeb o ymatebion ac ymateb Llywodraeth Cymru

16<sup>th</sup> Tachwedd 2017

# Gweithredu Systemau Draenio Cynaliadwy ar Ddatblygiadau Newydd

Cynnwys

Crynodeb o ymatebion ac ymateb Llywodraeth Cymru

Cyflwyniad	3
Trosolwg	4
Ymatebion i gwestiynau unigol	6
Casgliadau a'r camau nesaf	47

## ATODIAD

A: Rhestr lawn o ymatebwyr yn ôl sector

# Crynodeb o ymatebion ac ymateb Llywodraeth Cymru

## Cyflwyniad

### Diben yr ymgynghoriad

- 1.1 Ar 19 Mai 2017, gwnaeth Llywodraeth Cymru gyhoeddi ymgynghoriad ar Weithredu Systemau Draenio Cynaliadwy ar Ddatblygiadau Newydd.

Mae testun llawn yr ymgynghoriad ar gael yma:

<https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/ymgyngoriadau/gweithredu-systemau-draenio-cynaliadwy-ar-gyfer-datblygiadau-newydd>

Roedd yr ymgynghoriad yn ceisio safbwyntiau ynghylch y ffordd yr oedd Llywodraeth Cymru yn bwriadu mynd ati i sicrhau systemau draenio cynaliadwy effeithiol (SuDS) ar ddatblygiadau newydd. Yn benodol, roedd hyn yn gyfle i drafod cynnwys Atodlen 3 i Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (y Ddeddf), nad yw wedi cael ei chychwyn. Roedd hefyd yn gyfle i drafod y rheoliadau a'r gorchmynion, gan gynnwys y Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gweithredu Draenio Cynaliadwy (y Safonau SuDS) y mae eu hangen er mwyn gweithredu Atodlen 3 o'r Ddeddf.

### Y cyfnod ymgynghori a dosbarthiad

- 1.2 Parhaodd yr ymgynghoriad 12 wythnos, rhwng 19 Mai a 11 Awst 2017, fe'i dosbarthwyd yn helaeth, a chafodd ei gyhoeddi hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal, cynhaliwyd trafodaethau eang cyn ymgynghori, yn uniongyrchol â nifer o randdeiliaid allweddol ac fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Dŵr Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2015.


### Ymatebion

- 1.3 Daeth 57 o ymatebion i law oddi wrth amrywiaeth o sectorau a amlinellir yn Ffigur 1 (isod), gan gynnwys mwy nag un ymateb oddi wrth awdurdodau lleol unigol.

Yn ogystal, ystyriwyd adborth a gasglwyd mewn gweithdy adrefnwyd gan Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE), y Sefydliad Siartredig Rheoli Dŵr a'r Amgylchedd (CIWEM) a'r Sefydliad Tirwedd, a gynhaliwyd ar 21 Medi. Mae dau ymateb a ddaeth i law ar ôl y dyddiad cau wedi cael eu cynnwys. Mae rhestr lawn o ymatebwyr yn ôl sector wedi'i chynnwys yn **Atodiad A**.

Gofynnwyd cyfanswm o 23 cwestiwn, gyda darpariaeth ar gyfer sylwadau ychwanegol i ategu pob ymateb. Rhoddodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr atebion uniongyrchol i'r cwestiynau, gyda llawer yn ategu'r rhain â sylwadau ychwanegol.

**Ffigur 1 – Ymatebion a dderbyniwyd yn ôl sector**



### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

- 1.4 Mae Llywodraeth Cymru yn hapus gyda'r gefnogaeth gadarnhaol gyffredinol i'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn. Mewn ymateb, rydym bellach yn ymgynghori ar yr offerynnau statudol drafft a'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Draenio Cynaliadwy (y Safonau SuDS), y mae eu hangen i gychwyn Atodlen 3 i'r Ddeddf.
- 1.5 Rydym yn cydnabod y bydd cyflwyno gofynion Atodlen 3 yn arwain at newidiadau sylweddol ar gyfer awdurdodau lleol, ymgymmerwyr carthffosiaeth a datblygwyr. Rydym yn bwriadu gweithio'n agos gyda'r sectorau hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori er mwyn sicrhau nad yw cyflwyno'r gofynion hynny yn llesteirio datblygiad nac yn rhoi gormod o faich ar awdurdodau lleol.
- 1.6 Rydym wedi nodi'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ac mae llawer o'r rhain wedi cael eu hystyried yn yr offerynnau statudol drafft a'r Safonau SuDS cysylltiedig. Lle rydym wedi gwneud hynny, rydym wedi nodi ein hymateb yn yr adran "Ymatebion i gwestiynau unigol" briodol yn y ddogfen hon.
- 1.7 Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r rheiny a gefnogodd y gwaith o ddatblygu'r ymgynghoriad cychwynol ac i bawb a ymatebodd iddo. Rydym yn bwriadu parhau i drafod â rhanddeiliaid trwy gydol y cyfnod ymgynghori hwn, ac rydym yn ceisio'ch cefnogaeth a'ch cydweithrediad yn y gwaith o weithredu Atodlen 3 dros y blynyddoedd nesaf.

### **Trosolwg**

- 1.8 Mae'r holl ymatebion yn cael eu hystyried yn y crynodeb hwn. Roedd cefnogaeth gref i'r cynigion gan y rhan fwyaf o'r rheiny a ymatebodd, er i rai adeiladwyr leisio nifer o bryderon. Roedd y rhan fwyaf yn croesawu gweithredu Atodlen 3 oherwydd y byddai hynny'n rhoi eglurdeb i gynllunwyr, datblygwyr, a phawb sy'n gysylltiedig â'r gwaith o reoli dŵr wyneb o ddatblygiadau newydd. Roedd y rhan fwyaf o blaid rhoi dyletswyddau'r Corff Cymeradwyo

SuDS (y SAB) i awdurdodau lleol, er i nifer bach awgrymu opsiynau eraill. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan awdurdodau lleol yn mynegi pryderon ynghylch yr effaith arnyn nhw o ran diffyg staff sydd â chymwysterau priodol a diffyg cyllid, a'r effeithiau ar y prosesau cynllunio a mabwysiadu priffyrdd.

- 1.9 Mae'r atebion i Gwestiynau 1-23 yn cael eu crynhoi isod, ynghyd ag enghreifftiau o rai o'r sylwadau unigol a ddaeth i law, a dilynir pob un gan ymateb gan y Llywodraeth. Roedd rhai o'r cwestiynau a'r atebion cysylltiedig yn rhoi gwybodaeth sydd wedi cael ei defnyddio wrth ddatblygu'r offerynnau statudol drafft, a'r Safonau SuDS sy'n destun yr ymgynghoriad pellach hwn. Gwnaethom dderbyn nifer o sylwadau ynghylch yr asesiad effaith, yn herio rhai o'r rhagdybiaethau a wnaed wrth ei ddatblygu – yn benodol yr effaith ar awdurdodau lleol. Prin oedd y dystiolaeth newydd a gynigiwyd. Edrychwyd ar yr holl sylwadau hyn a byddant yn cael eu hystyried yn y ddogfen derfynol a fydd yn cyd-fynd â'r offerynnau statudol.
- 1.10 Daeth y rhan fwyaf o'r ymatebion oddi wrth awdurdodau lleol, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Roedd llawer yn pwysleisio'r cysylltiadau â'r cyd-destun deddfwriaethol penodol sydd gennym yng Nghymru ac, yn neilltuol, gweithredu Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 1.11 Dywedodd y rheiny a chanddynt brofiad o'r system gynllunio a'r Safonau SuDS dros dro cyfredol nad oeddent yn cael eu defnyddio, oherwydd eu statws gwirfoddol, a bod angen statws statudol arnynt er mwyn bod yn effeithiol. Ar eu gorau, mae gan y rhan fwyaf o gynlluniau cyfredol system o bibellau draenio ac iddi bwl neu wlyptir ar "ddiwedd y bibell", sydd o safon gryn dipyn yn is na'r dyheadau yn y Safonau SuDS.
- 1.12 Roedd consensws ynghylch yr angen i ddatblygwyr ddarparu cynlluniau cynnal a chadw. Roedd amrediad o safbwyntiau ar gynigion ar gyfer esemptiadau ac ar ein cwestiwn ynghylch diffinio SuDS. Roedd cytundeb cyffredinol ynghylch ein cynigion ar gyfer amserlenni cymeradwyo, cyfnodau ymgynghori a ffioedd. Rydym wedi ystyried yr holl sylwadau sy'n gysylltiedig â'r rhain wrth ddrafftio'r offerynnau statudol. Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle pellach i adolygu a gwneud sylwadau arnynt.
- 1.13 Gwnaethom dderbyn nifer o sylwadau ynghylch yr opsiynau ar gyfer gwaith cynnal a chadw parhaus, er nad oedd yr un o'r ymatebion yn rhoi tystiolaeth benodol ynghlŷn â chostau. Rydym yn bwriadu gweithio'n agos gyda datblygwyr ac awdurdodau lleol yn ystod yr ymgynghoriad cyfredol hwn i ddatblygu opsiynau cynnal a chadw ymhellach.


## Ymatebion i gwestiynau unigol

### 2. Cwestiwn 1: A ydych yn cytuno â'n cynigion? Rhowch eglurhad gyda'ch ateb.

2.1 Gwnaethom gynnig y dylid mynd ati mewn cyfuniad o ffyrdd i wneud SuDS yn ofynnol ar ddatblygiadau newydd:

- Roeddem yn bwriadu ystyried a oes angen newidiadau i Atodlen 3 i'r Ddeddf fel y bo'r darpariaethau'n cyd-fynd yn agosach â'n hamcanion polisi ni.
- Wedyn byddwn yn gwneud trefniadau i gychwyn Atodlen 3 i'r Ddeddf, a fydd yn gwneud y gofyniad am SuDS ar ddatblygiadau newydd yn orfodol. Gwnaethom hefyd fanteisio ar y cyfle i drafod agweddau allweddol ar reoliadau a gorchmynion, gan gynnwys y Safonau SuDS gorfodol, sydd eu hangen i weithredu'r Ddeddf.

**Ffigur 2 – Ymatebion i Gwestiwn 1**



### Crynodeb o ymatebion

2.2 Bu i'r rhan fwyaf o'r rheiny a ymatebodd i'r ymgynghoriad ateb y cwestiwn hwn a chytuno â'n cynigion. Roedd y rheiny a roddodd sylwadau ychwanegol yn cefnogi'r angen am reoleiddio a mynegodd nifer y farn bod y gwaith o'i gweithredu eisoes wedi cael ei ohirio'n rhy hir.

2.3 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn naill ai'n cefnogi Atodlen 3 heb ei newid neu ni wnaethant sylwadau ynghylch yr angen am unrhyw newid. Roedd un sylw gan ymgymwrwr carthffosiaeth yn mynegi pryder ynghylch colli rheolaeth dros y cysylltiadau â'u rhwydwaith, sydd ymhlyg yn Atodlen 3. Dywedodd cynrychiolwyr datblygwyr fod yn rhaid cadw'r hawl i gysylltu o dan ddarpariaeth Adran 106 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991. Roedd nifer o ymatebion yn trafod cysylltiadau â'r system gynllunio. Roedd y rhain yn cynnwys cwestiynau am statws safleoedd sydd â chaniatâd cynllunio a'r posibilrwydd o oedi os oes angen newidiadau i'r broses gynllunio. Roeddent hefyd yn mynegi'r farn nad yw'r broses gynllunio yn ddigonol ar gyfer cyflawni SuDS o ansawdd uchel, gan ddyfynnu achosion lle'r oedd polisiau SuDS wedi cael eu tynnu o Gynlluniau Datblygu Lleol wrth

iddynt eu harchwilio. Gofynnwyd hefyd am eglurhad ynghylch y berthynas arfaethedig rhwng cynllunio a chymeradwyaeth gan y SAB.

- 2.4 Nodwyd yn nifer o'r ymatebion fod anghysondebau â rhan o'n hymgyngoriad cydamserol ar Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, sy'n cynnwys cynnig (40) i ddiwygio Atodlen 3 i ganiatáu i ymgwymerwyr carthffosiaeth gadw rheolaeth gyffredinol dros gysylltiadau â'u rhwydwaith cyhoeddus. Mae awdurdodau lleol yn pryderu y gallai diwygiad o'r fath rwystro cynnydd.
- 2.5 Roedd datblygwyr yn gryf yn erbyn sefydlu'r SAB, a gwnaethant fynegi'r farn mai dim ond yr ymgwymerwr cyfleustodau carthffosiaeth a ddylai fod yn gysylltiedig â draenio dŵr wyneb.
- 2.6 Roedd pwyntiau ychwanegol a godwyd mewn perthynas â'r cwestiwn hwn yn cynnwys cwmpas y gwaith o'i gweithredu mewn ardaloedd gwledig, y posibilrwydd o'i gweithredu fesul cam, a materion yn ymwneud â ffiniau. Roedd nifer o ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cynnwys sylwadau am yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol, sydd wedi eu cynnwys o dan Gwestiwn 2.
- 2.7 Awgrymodd un ymateb y dylid rhoi mwy o bwyslais ar y manteision ar gyfer rheoli adnoddau dŵr yn well.
- 2.8 Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

*"Mae'r oedi wrth weithredu Atodlen 3 i'r Ddeddf wedi llesteirio'r gwaith o reoli dŵr wyneb ffo a pherygl llifogydd yn effeithlon, gan fynd yn groes i ddyletswyddau a roddwyd ar awdurdodau lleol fel awdurdodau llifogydd lleol arweiniol ac egwyddorion datblygu cynaliadwy a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol."* Llywodraeth leol

*"Ar hyn o bryd, mae diffyg safonau gorfodol a chwestiynau ynglŷn â'r gallu i fabwysiadau systemau rheoli dŵr wyneb yn effeithio ar ddatblygwyr a'r awdurdod, ac yn atal systemau dŵr wyneb da rhag cael eu hymgorffori mewn datblygiadau newydd. Yn amlach na pheidio, mae systemau "pen pibell" yn cael eu creu na ellir wir eu hystyried yn SuDS amlswyddogaethol."* Awdurdod lleol

*"Rwy'n cytuno â'r cynigion ac yn credu eu bod yn gam angenrheidiol wrth symud tuag at adeiladu cymdeithas fwy cydnerth a pharod i addasu yng Nghymru, gan leihau ein hól traed carbon a dechrau cydnabod bod dŵr yn adnodd cenedlaethol."* Academydd

*"Diffyg allweddol yn Atodlen 3 ar gyfer ymgwymerwyr carthffosiaeth yw geiriad adran 106A, a fydd yn cael ei mewnosod i Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 wrth i Atodlen 3 gael ei chychwyn. ... trwy wneud yr hawl i gysylltu'n amodol ... ar gael cymeradwyaeth gan y SAB. Mae'r ... yn newid gallu'r ymgwymerwr carthffosiaeth i wrthod cysylltiadau ar sail y ffaith bod y SuDS yn draenio i 'dir nad yw'n eiddo nac yn garthffos'. Bydd y newid hwn yn tansellio, mewn ffordd sylfaenol, allu ymgwymerwyr carthffosiaeth i reoli draeniau tir a llifoedd dros dir rhag cael eu cysylltu â'r garthffos, a bydd yn dadwneud gwaith ... i atal ac i gael gwared ar gysylltiadau o'r fath dros y 25 mlynedd diwethaf."* Ymgwymerwr carthffosiaeth

*"Ar hyn o bryd, ystyrir SuDS yn rhan annatod o'r broses o wneud cais cynllunio. Yn ôl pob golwg, mae cynigion Llywodraeth Cymru yn creu proses baralel nad yw'n cael ei hystyried o fewn y cais cynllunio ei hun."* Awdurdod lleol

*"Mae SuDS yn creu lleoedd sy'n fwy abl i wrthsefyll newid hinsawdd, a chanddynt gymeriad lleol penodol, ac y mae pobl eisiau byw a gweithio ynddynt ac ymweld â nhw; lleoedd sy'n*

*hyrwyddo llesiant, cynhyrchiant a manteision addysgol, ac yn lleihau trosedd; a manau lle y gall cymunedau ymgysylltu â'u hamgylchedd lleol mewn modd gweithredol." Corff amgylcheddol anllwyodraethol*

*"Mae'n siom nad ystyrir y system gynllunio yn gyfrannwr allweddol at hwyluso'r defnydd o SuDS, ac nad yw ei rôl bosibl yn cael ei hystyried mewn unrhyw fanylder gan y papur ymgynghori. Nes i'r adolygiad o TAN 15 gael ei gyhoeddi, ni fyddwn yn gwybod sut mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i SuDS gael eu hintegreiddio i bob cam o'r broses cynllunio datblygu." Corff proffesiynol*

*"... yn credu'n gryf y dylai cwmnïau dŵr a charthffosiaeth ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros bob agwedd ar ddraenio dŵr wyneb ... Byddai hynny'n gwbl gyson ag un o brif argymhellion Adroddiad Pitt 2008 ... yn credu mai cwmnïau dŵr a charthffosiaeth a ddylai fod y corff sy'n gyfrifol am gymeradwyo a mabwysiadu dyluniadau. Ni allwn weld unrhyw gyfiawnhad dros gyflwyno'r cysyniad o SAB." Busnes*

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**


- 2.9 Ar y cyfan, mae'r ymatebion hyn yn ategu ein cynnig i weithredu Atodlen 3. Roedd nifer yn cyfleu ymdeimlad o frys a'r angen i roi eglurdeb a sicrwydd i ddatblygwyr ac awdurdodau lleol. Felly, rydym wedi defnyddio'r ddogfen hon nid yn unig i grynhoi ymatebion i'r ymgynghoriad a'r hyn y byddwn yn ei wneud o ganlyniad iddo, ond hefyd i symud ymlaen ag ymgynghoriad ar yr offerynnau statudol a fydd yn gweithredu Atodlen 3.
- 2.10 Roedd yr unig newid a awgrymwyd i'r Ddeddf yn gysylltiedig ag ymgwymerwyr carthffosiaeth yn rheoli cysylltiadau â'u rhwydwaith. Nododd nifer o ymatebion eraill na fyddai hynny'n ddymunol. Cafodd y ddeddfwriaeth wreiddiol ei drafftio yn seiliedig ar y ffaith y byddai'r ymgwymerwr carthffosiaeth yn ymgynghorai statudol yn y broses gymeradwyo. Gellid gofyn am fesurau addas i amddiffyn y rhwydwaith carthffosiaeth mewn ymateb i ymgynghoriad. Yn y pen draw, bydd ymgwymerwyr carthffosiaeth yn elwa ar y ffaith y bydd cryn dipyn yn llai o lif o ganlyniad i systemau dŵr wyneb ar gyfer safleoedd newydd a safleoedd wedi'u hailddatblygu, a fydd wedi cael eu cymeradwyo a'u hadeiladu yn unol â'r Safonau SuDS.
- 2.11 Mae'r offerynnau statudol drafft, sy'n destun ymgynghori yn y ddogfen hon, yn mynd i'r afael â llawer o fanylion y berthynas rhwng y broses o gymeradwyo SuDS a'r broses gynllunio. Rydym yn disgwyl y bydd ymgysylltiad cadarnhaol pellach ag awdurdodau lleol a datblygwyr, trwy gydol yr ymgynghoriad hwn, yn helpu i ateb y cwestiynau a'r sylwadau a godwyd ynghylch y berthynas â chaniatâd cynllunio, ac yn sicrhau bod y broses yn cael ei gweithredu mewn modd effeithiol.
- 2.12 Rydym yn credu y bydd gweithredu Atodlen 3 i'r Ddeddf yn sbarduno newid sylweddol yn y gwaith o reoli dŵr wyneb ar ddatblygiadau newydd yng Nghymru. Bydd hyn yn gwella ansawdd bywyd a'r ymdeimlad o le mewn cymunedau newydd a rhai wedi'u hailddatblygu, yn ogystal â gwella'r amgylchedd lleol, rheoli'r perygl o lifogydd a diogelu ansawdd dŵr.

### **3. Cwestiwn 2: A oes gennych unrhyw dystiolaeth ychwanegol a allai newid argymhellion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a gynhaliwyd yn ystod y cam ymgynghori? Rhowch eglurhad gyda'ch ateb.**

- 3.1 Roedd ein hymgynghoriad yn cynnwys Asesiad Effaith Rheoleiddiol a oedd yn amlinellu pwy fyddai'n cael ei effeithio gan ein cynigion a sut. Mae'n dadansoddi costau, manteision a risgiau nifer o opsiynau, a nododd ei bod yn debygol mai trwy fabwysiadu dull gorfodol y ceid y fantais fwyaf o weithredu SuDS. Roedd y cwestiwn hwn yn ceisio rhagor o dystiolaeth i fwydo i mewn i asesiad effaith terfynol.



**Ffigur 3 – Ymatebion i Gwestiwn 2**



### **Crynodeb o ymatebion**

- 3.2 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan awdurdodau lleol yn credu bod costau sefydlu'r SAB wedi cael eu tanamcangyfrif yn yr asesiad effaith. O ystyried yr heriau i gyllidebau awdurdodau lleol ar hyn o bryd, maent o'r farn y dylid darparu cyllid ychwanegol i dalu am y llwyth gwaith uwch a ddisgwylir ac am anghenion hyfforddiant ychwanegol. Roedd un ymatebwr yn credu bod y rhagdybiaeth ynghylch cyflogau staff yn anghywir ac yn cwestiynu'r rhagdybiaethau a wnaed ynglŷn â chapasiti staff i brosesu ceisiadau i'r SAB. Mae nifer o awdurdodau lleol wedi rhoi gwybodaeth ddefnyddiol am nifer y ceisiadau cynllunio lle mae angen sylwadau ynghylch draenio.
- 3.3 Bu i un ymatebwr gwestiynu sail arbedion i ddatblygwyr, ac awgrymu bod yr amcangyfrifon a gynigiwyd ar gyfer nifer y systemau SuDS a oedd angen cysylltiadau â charthffos gyhoeddus yn afrealistig o isel. Gwnaeth hefyd fynegi'r farn y byddai trefniadau ar gyfer gwaith cynnal a chadw tymor hir yn amlhau, ac y gallai hynny ychwanegu at gostau datblygwyr.
- 3.4 Bu i ymateb gan ddatblygwyr godi problemau ynghylch tir trydydd partïon o ran sicrhau unrhyw ollwng ar draws tir trydydd partïon, a chanlyniadau datblygwr yn cael ei ddal yn wystl mewn amgylchiadau o'r fath. Roedd hefyd yn cwestiynu'r rhagdybiaethau a'r costau mewn perthynas â faint o dir y mae SuDS uwchlaw'r ddaear yn ei ddefnyddio, costau gwaredu gwastraff cloddio, a chostau systemau cynaeafu dŵr glaw. Roedd yn dyfynnu o dystiolaeth a gyflwynwyd i Lywodraeth y DU i'w hystyried.
- 3.5 Bu i Cyfoeth Naturiol Cymru gwestiynu'r diffyg gwybodaeth yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol am y goblygiadau iddo o ran adnoddau yn ei rôl fel ymgynghorai statudol.
- 3.6 Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

*"Mae'r asesiad yn dweud na fyddai unrhyw gostau i awdurdod llifogydd lleol arweiniol am sefydlu SAB. Teimlir bod y rhagdybiaeth hon yn anghywir am y byddai angen newidiadau i'r tîm mewnol / yr adran er mwyn sefydlu'r SAB, a byddai goblygiadau o ran costau yn hynny o beth. Teimlir y dylai awdurdodau llifogydd lleol arweiniol gael cymhorthdal neu gymorth ariannol er mwyn ymgymryd â rôl y SAB."* Awdurdod lleol

*"Bydd angen staff ychwanegol er mwyn cyflawni dyletswyddau ychwanegol. Yn enwedig yr elfennau o weinyddu, goruchwylio gwaith adeiladu a gorfodi."* Awdurdod lleol

*"Rydym yn anghytuno ac yn herio canfyddiadau'r adroddiad sy'n nodi na fyddai unrhyw gostau i awdurdodau lleol weithredu SAB, yn enwedig ar gyfer yr awdurdodau mewn ardaloedd mwy adeiledig lle byddai'r nifer enfawr o geisiadau cynllunio yn ei gwneud yn ofynnol iddynt gyflogi staff newydd a phrofiadol i ymdrin â'r nifer mawr o geisiadau."*  
Awdurdod Lleol

*"Hoffem weld eglurhad ynghylch sut mae costau gweithredu ar gyfer gweithredu a chynnal a chadw asedau SuDS wedi cael eu cyfrifo. Yn ein profiad ni, ychydig yn unig o waith cynnal a chadw, os o gwbl, sydd ei angen ar garthffosydd a adeiladwyd yn y ffordd gywir ac ar atebion "pen pibell", ac fel arfer maent yn cael eu dylunio i'w glanhau eu hunain. Mae hyn yn golygu, felly, bod costau sy'n gysylltiedig â'u gweithredu a'u cynnal a'u cadw yn isel ... mae'n anochel y bydd y costau gweithredu ar gyfer SuDS "gwyrdd" yn uwch oherwydd y ffaith eu bod ar yr wyneb ac yn fwy gweladwy, a hefyd yr angen am waith cynnal a chadw tir rheolaidd."* Cwmni cyfleustodau

*"... yn ystyried bod diffyg manylion yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar hyn o bryd i ategu llawer o'i gasgliadau ynghylch costau a manteision posibl. Yn benodol y casgliad bod SuDS (uwchlaw'r ddaear) yn rhatach nag atebion eraill sydd o bosibl yn fwy priodol."* Busnes

*"Mae'n dda gennym weld bod yr asesiad effaith yn cydnabod bod y ffigur ar gyfer manteision yr opsiwn arfaethedig yn un ceidwadol, o ganlyniad i'r anawsterau wrth geisio nodi ffigur ariannol ar gyfer y manteision."* Corff anllywodraethol

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

- 3.7 Cafodd ein Hasesiad Effaith Rheoleiddiol ei ddatblygu gan ymgynghori â'n Panel Cynghorïi ac roedd yn defnyddio'r dystiolaeth orau oedd ar gael ynglŷn â chostau a manteision. Roedd cyfeiriadau clir ar gyfer yr holl dystiolaeth a ddefnyddiwyd a'r rhagdybiaethau a wnaed.
- 3.8 Ynglŷn â chostau gweithredol, mae'n bwysig cydnabod bod y costau ar gyfer SuDS yn wahanol, ond mae'n bosibl na ellir eu cymharu â charthffosydd dŵr wyneb safonol. Er enghraifft, wrth edrych ar ddraenio mewn ffordd fwy cyfannol, mae costau cynnal a chadw sylweddol yn gysylltiedig â draeniau ffyrdd. Yn ogystal, mae tystiolaeth nad yw cynnal a chadw rhai SuDS sydd wedi'u dylunio'n dda ac wedi cael eu hintegreiddio i fannau gwyrdd yn costio mwy na chynnal a chadw'r manau gwyrdd eu hunain.
- 3.9 O ystyried y sylwadau sydd wedi dod i law, rydym yn bwriadu gweithio'n agos gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac awdurdodau lleol unigol yn ystod yr ymgynghoriad pellach er mwyn gwella'r sylfaen dystiolaeth ynglŷn â'r adnoddau sydd eu hangen arnynt a'u costau. Byddwn hefyd yn ceisio tystiolaeth bellach gan ddatblygwyr, Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â chostau. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei defnyddio i lunio'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol ar gyfer cychwyn Atodlen 3.
- 3.10 Byddwn hefyd yn ceisio tystiolaeth bellach ynglŷn â'r manteision sy'n gysylltiedig â SuDS, yn benodol mewn perthynas ag iechyd a llesiant.

## **4. Cwestiwn 3: A ydych yn cytuno â'r diffiniad presennol o ddraenio cynaliadwy? Os nad ydych, awgrymwch unrhyw newidiadau, gan roi eich rhesymau.**


- 4.1 Mae Paragraff 2 o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn diffinio draenio cynaliadwy fel rheoli dŵr glaw â'r nodau a ganlyn:

- Lleihau'r difrod gan lifogydd

- Gwella ansawdd dŵr
- Diogelu a gwella'r amgylchedd
- Amddiffyn iechyd a diogelwch
- Sicrhau sefydlogrwydd a gwydnwch systemau draenio

Rydym am sicrhau bod y diffiniad hwn yn parhau'n briodol ar gyfer Cymru, felly gwnaethom geisio safbwyntiau ynghylch unrhyw newidiadau y gallai fod eu hangen.

**Ffigur 4 – Ymatebion i Gwestiwn 3**



### Crynodeb o ymatebion

- 4.2 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno â'r diffiniad yn Atodlen 3. Roedd dau am weld cyfeiriad at aildefnyddio dŵr, ac roedd yn well gan nifer fach "leihau perygl llifogydd" na'r cyfeiriad at "ddfrod gan lifogydd".
- 4.3 Bu i nifer o ymatebwyr awgrymu diwygiadau yn unol â nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, gwelliannau er mwyn pwysleisio manteision amlswyddogaethol a chymdeithasol SuDS a'u manteision o ran bioamrywiaeth. Awgrymodd un ymateb y dylid sicrhau nad yw nodweddion SuDS yn effeithio'n andwyol ar adeiladau a strwythurau.
- 4.4 Roedd awgrymiadau eraill yn cynnwys croesgyfeirio'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Draenio Cynaliadwy, gan gyfeirio at ddynwared llifoedd naturiol a cheisio sicrhau mai datrysiadau pen pibell yw'r opsiwn olaf.
- 4.5 Awgrymodd un sector busnes opsiwn amgen:

*"Rheoli a goruchwyllo dŵr wyneb ffo mewn modd effeithiol, trwy ddefnyddio cyfres o opsiynau islaw ac uwchlaw'r ddaear, er mwyn lliniaru'r perygl o lifogydd."*

*"O ystyried y ffaith bod manteision SuDS yn ehangach o lawer na manteision systemau draenio traddodiadol, rydym yn argymhell bod y diffiniad o ddraenio cynaliadwy yn cynnwys meini prawf sy'n fwy cydnaws â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'r egwyddorion sydd yn y Safonau Cenedlaethol anstatudol. Byddai, felly, yn fwy clir am y*

*manteision o ran bioamrywiaeth, creu lleoedd, hamdden, amwynder a llesiant." Corff proffesiynol*


*"Rydym hefyd yn credu y gellid ychwanegu dau bwynt arall i'r egwyddorion a amlinellir yn y safonau anstatudol a argymhellir. Hoffem hefyd weld pwynt yn cael ei ychwanegu i adlewyrchu'r ffaith na ddylai ffynhonnell ynni fod yn ofynnol er mwyn i SuDS weithredu, a hefyd bwynt i atgyfnerthu'r angen i SuDS annog ailddefnyddio dŵr." Cwmni cyfleustodau*

*"Rydym yn nodi bod y termau 'lleihau' (difrod gan lifogydd) a 'gwella' (ansawdd dŵr) yn awgrymu gwelliant ... Mae'n bosibl y byddai'r termau 'amddiffyn' a 'sicrhau' yn fwy priodol." Ymgynghorydd*

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

- 4.6 Mae'n dda gan Lywodraeth Cymru nodi'r cytundeb cyffredinol ynghylch y diffiniad o draenio cynaliadwy a gynhwysir yn Atodlen 3. Rydym yn credu y gellir rhoi sylw i'r rhan fwyaf o'r gwelliannau a argymhellwyd trwy'r Safonau SuDS. Er enghraifft, o dan yr egwyddorion sydd ynddynt, dylai cynlluniau SuDS geisio gwneud y canlynol:
- sicrhau'r manteision mwyaf posibl o ran amwynder a bioamrywiaeth;
  - ceisio gwneud y defnydd gorau o'r tir sydd ar gael trwy ddefnydd amlswyddogaethol o fannau cyhoeddus a thir y cyhoeddus;
  - trin glaw fel adnodd naturiol gwerthfawr
- 4.7 Mae'n bwysig nodi nad yw'r diffiniad yn diystyried unrhyw ddull draenio penodol. Mae'r safonau yn cyflwyno opsiynau a ffefrir, er enghraifft mewn perthynas â systemau uwchlaw'r tir a'r defnydd o'r llwybr rheoli dŵr wyneb yn hytrach na systemau "pen pibell".
- 4.8 At ei gilydd, nid ydym yn credu bod angen inni wneud diwygiadau i'r diffiniad ar yr adeg hon. Mae nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd eisoes yn berthnasol i ddatblygiadau newydd. Byddwn yn parhau i adolygu hyn ac, os bydd hynny'n briodol, yn ceisio cyfleoedd deddfwriaethol addas a phriodol i gryfhau'r cysylltiadau.
- 5. Cwestiwn 4: Dylai draenio ar gyfer dŵr wyneb ffo fod yn gynaliadwy ac yn fforddiadwy. O'ch profiad chi, a yw'r Safonau Cenedlaethol y gwnaethom eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2016 yn cyflawni hyn? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.**
- 5.1 Gwnaethom ofyn am y profiad o weithredu'r Safonau Cenedlaethol anstatudol cyfredol a argymhellir ar gyfer SuDS, y bu inni eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2016. Yn benodol, gwnaethom ofyn a ydynt, yn eich barn chi, yn cefnogi'r gwaith o weithredu SuDS sy'n gynaliadwy ac yn fforddiadwy.

**Ffigur 5 – Ymatebion i Gwestiwn 4**



### **Crynodeb o ymatebion**

5.2 Nid atebodd y rhan fwyaf o'r ymgynghorion y cwestiwn hwn yn uniongyrchol, er i nifer roi sylwadau perthnasol. O'r rhai a roddodd ymateb uniongyrchol, roedd y rhan fwyaf yn cytuno (10 allan o 11). Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'r sylwadau nad oes ond ychydig neu ddim profiad o gwbl o'r safonau gwirfoddol ar gyfer SuDS yn cael eu gweithredu, ac roedd llawer o'r rheiny a gytunodd yn mynegi'r farn y gallai SuDS gyflawni'r gwaith o reoli dŵr wyneb mewn ffordd gynaliadwy a fforddiadwy pe baent yn cael eu gweithredu.

5.3 Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

*"Nid oes gennym brofiad penodol o ddarparu SuDS gan ddefnyddio'r safonau anstatudol ar argymhellir. Fodd bynnag, nid ydym yn teimlo bod y safonau'n ddigon diamwys i ddarparu'r eglurder sydd ei angen ... o gymharu â Safonau Gweinidogion Cymru ar gyfer carthffosydd budr disgyrchiant a draeniau ochrol."* Cwmni cyfleustodau.

*"Bydd yr egwyddorion a'r hierarchaeth a amlinellir yn y safonau'n arwain at reoli dŵr mewn modd cynaliadwy ... nes y bydd y safon genedlaethol yn dod yn ofyniad statudol, bydd profiad o'i weithredu'n gyfyngedig."* Awdurdod lleol

*"Fforddiadwyedd – mae'r term hwn yn un goddrychol ac ni ellir ei asesu heb ganllawiau clir ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei gostio. Hefyd, nid yw'n glir at bwy y dylid cyfeirio'r fforddiadwyedd."* Awdurdod lleol

*"Mae cynlluniau mwy arwyddocaol wedi cael eu cynnig nad ydynt yn llawn fodloni gofyniad yr egwyddorion ... Mae cynlluniau wedi parhau i gynnig nodwedd 'pen pibell' megis pwll dŵr."* Awdurdod lleol

*"Os yw SuDS yn cael eu hadeiladu yn unol â'r Safonau Cenedlaethol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016, yna, ydym, rydym yn credu y byddant yn gynaliadwy. Dylai SuDS, yn enwedig y rhai ac iddynt nodweddion ar y wyneb a nodweddion mwy naturiol, fod yn rhatach i'w hadeiladu ac yn rhatach i'w cynnal a'u cadw, at ei gilydd, na draenio traddodiadol."* Corff anllywodraethol amgylcheddol

"Mae rhai adeiladwyr tai wedi osgoi gweithredu SuDS trwy awgrymu eu bod yn gwneud eu datblygiadau'n 'anfforddiadwy' trwy ddefnyddio gormod o dir a gadael gormod o ôl troed. Yn aml, maent yn methu â chydabod gwerth cymunedol a chymdeithasol SuDS, gan eu bod â'r awydd i ddiosg eu holl gyfrifoldeb unwaith mae'r tŷ olaf wedi cael ei werthu". Corff proffesiynol

"... ddim yn ymwybodol o unrhyw ddata penodol sydd wedi cael eu casglu mewn perthynas â chynaliadwyedd neu gost cynlluniau a osodwyd ar ôl mis Ionawr 2016." Corff masnachu


## Ymateb Llywodraeth Cymru

5.4 Rydym yn cydnabod nad oes unrhyw adroddiadau am brofiadau o weithredu'r safonau dros dro ar gyfer SuDS. Rydym hefyd yn cydnabod bod cwestiynau mewn perthynas â fforddiadwyedd, yn benodol pan ystyrir manteision ehangach datrysiadau amlswyddogaethol, gan ei bod yn bosibl nad y datblygwr fydd ar ei enill. At ei gilydd, mae'r ymatebion hyn yn awgrymu y dylai gwneud y Safonau SuDS yn orfodol sicrhau bod dŵr wyneb yn cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy a fforddiadwy, trwy integreiddio'r gwaith o ddylunio draeniau â'r gwaith o ddylunio safleoedd er mwyn creu cymunedau dymunol.

## 6. Cwestiwn 5: A ydych yn cytuno â'r egwyddorion ar gyfer draenio cynaliadwy sydd wedi'u cynnwys yn y Safonau Cenedlaethol anstatudol a argymhellir? Os nad ydych, rhowch awgrymiadau ychwanegol neu wahanol.

6.1 Mae ein safonau anstatudol cyfredol ar gyfer SuDS yn cynnwys set o egwyddorion ar gyfer draenio cynaliadwy sy'n sail iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys materion megis manteision o ran amwynder a bioamrywiaeth, diogelwch tymor hir, a dibynadwyedd a fforddiadwyedd. Hoffem gael eich safbwyntiau ar yr egwyddorion hyn.

**Ffigur 6 – Ymatebion i Gwestiwn 5**



## Crynodeb o'r ymatebion

6.2 Bu i'r rhan fwyaf o'r rheiny a ymatebodd i'r ymgynghoriad ateb y cwestiwn hwn a chadarnhau eu bod yn cytuno â'r egwyddorion ar gyfer draenio cynaliadwy sydd yn y safonau anstatudol ar gyfer SuDS. Roedd cefnogaeth lethol dros weithredu'r Safonau

SuDS gorfodol er mwyn i'r egwyddorion ddod yn ofyniad statudol ar gyfer datblygiadau newydd.

- 6.3 Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr fod yr egwyddorion yn ddigon cynhwysfawr a defnyddiol o ran nodi'r prif amcanion ar gyfer dylunio ac adeiladu SuDS. Roedd nifer o ymatebwyr yn teimlo bod yr egwyddorion yn cyd-fynd yn briodol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- 6.4 Awgrymodd un ymateb y dylid rhoi rhagor o bwyslais yn yr egwyddorion ar reoli perygl llifogydd yn y dyfodol ac ar effeithiau newid hinsawdd. Awgrymodd ymateb arall fod angen egwyddor ar gyfer mabwysiadu ac egwyddor ar gyfer y lefel briodol o sgiliau a hyfforddiant, ond ni roddwyd enghraifft.
- 6.5 Bu i nifer o ymatebwyr gadarnhau eu bod yn cefnogi'r egwyddorion sy'n sail i'r safonau, gan fynd yn eu blaenau i roi sylwadau ychwanegol ar y safonau yn eu cyfanrwydd. Roedd y rhan fwyaf yn argymhell newidiadau technegol mewn perthynas â materion sy'n gysylltiedig â chyfraddau ymdreiddio, hawddfrentiau a gwelliannau. Lleisiodd un ymatebwr bryder ynghylch y goblygiadau ar gyfer ardaloedd lle mae gweithiau cloddio tanddaearol.
- 6.6 Mynegodd nifer o'r ymatebwyr bryder bod yr egwyddorion yn rhai y gellid ystyried eu bod yn orgyfarwyddol ac nad ydynt yn caniatáu i'r ateb mwyaf priodol gael ei ddatblygu ar gyfer safle penodol. Teimlent, yn benodol, na ddylid ystyried nad oedd technegau ac atebion masnachol cystal ag atebion naturiol neu atebion gwyrdd.
- 6.7 Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

*"... cytuno'n gyffredinol â'r Safonau Cenedlaethol anstatudol a'r egwyddorion sy'n sail iddynt." Busnes*

*"Ydyn. Fodd bynnag, mae profiad ymarferol o'r safonau cenedlaethol yn gyfyngedig. Er bod y safonau cenedlaethol yn cael eu hyrwyddo, nes y byddant y cael eu gweithredu fel gofyniad statudol, ni fyddant yn cael eu gweithredu gan ddatblygwyr." Awdurdod Lleol*

*"Ydyn, rydym yn cytuno mewn egwyddor â'r egwyddorion a amlinellir yn y Safonau Cenedlaethol anstatudol a argymhellir, ond rydym yn credu bod angen i'r safonau a'r prosesau fod yn ddigon cadarn i sicrhau y gellir dilyn yr egwyddorion yn llwyddiannus." Cwmni cyfleustodau*

*"...dylid osgoi safonau sy'n ffafrio neu'n gorfodi datblygwyr i ddefnyddio elfennau unigol (neu is-setiau o elfennau) yn hytrach na chaniatáu dewis rhydd iddynt o'r pecyn SuDS cyfan oherwydd bod hynny, mewn gwirionedd, yn gallu cyfyngu ar effeithiolrwydd y system ddraenio gyfan ac ar y manteision sy'n deillio ohoni." Busnes*

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

- 6.8 Awgrymodd cwpl o'r ymatebion ffyrdd o ddatblygu'r egwyddorion a'r Safonau SuDS ymhellach. Rydym yn bwriadu gwahodd ymgysylltiad pellach ynglŷn â'r egwyddorion a'r safonau mewn cyfres o weithdai cyhoeddus y byddwn yn eu cynnal trwy gydol yr ymgynghoriad hwn.


6.9 Mae systemau draenio amlswyddogaethol sy'n gwarchod rhag llygredd dŵr a llifogydd, ac sydd hefyd yn esgor ar fanteision o ran amwynder, hamdden a bioamrywiaeth, yn allweddol i'n polisi ar SuDS. Mewn sawl achos, bydd yr her hon yn golygu y bydd gofyn cyfuno technegau uwchben y ddaear ac oddi tano. Rydym yn credu bod yr egwyddorion cyfredol yn darparu ar gyfer hynny, ond mae'n hymgyngoriad pellach yn gyfle i ymchwilio ymhellach i'r mater hwn cyn i'r Safonau gael eu cyhoeddi'n derfynol.

**7. Cwestiwn 6: A ydych yn cytuno bod angen i ymgeiswyr sefydlu gofynion cynnal a chadw eu system ddraenio arfaethedig a nodi sut y bydd yn cael ei hariannu yn gynnar yn y broses? Rhowch resymau dros eich ateb. A yw'r ychwanegiad arfaethedig at yr egwyddorion yn ddigonol?**

7.1 Rydym yn dymuno cadarnhau'r angen i ymgeiswyr sefydlu gofynion cynnal a chadw a'r costau cysylltiedig ar gyfer eu system draenio arfaethedig, ac i nodi sut y bydd y rhain yn cael eu hariannu. Felly, gwnaethom gynnig yr ychwanegiad arfaethedig at adran egwyddorion y Safonau SuDS:

*"Yn ogystal, dylid datblygu cynllun cynnal a chadw a nodi a chytuno ar y dulliau ar gyfer ei ariannu am ei oes ddisgwyliedig."*

**Ffigur 7 – Ymatebion i Gwestiwn 6**



**Crynodeb o'r ymatebion**

7.2 Roedd cefnogaeth glir i'r ychwanegiad arfaethedig at adran egwyddorion y Safonau SuDS. Bu i'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn a chytuno ar yr angen i ymgeiswyr fynd ati'n gynnar yn y broses i gadarnhau gofynion cynnal a chadw a nodi sut y bydd y gwaith hwnnw'n cael ei ariannu ar gyfer SuDS arfaethedig. Hefyd, roedd cytundeb cyffredinol y byddai ychwanegu'r egwyddor hon at y Safonau SuDS gorfodol yn rhoi eglurder a sicrwydd i'r ymgeisydd, y corff cymeradwyo SuDS, a'r rhanddeiliaid ehangach.

7.3 Mewn cyferbyniad, roedd gan nifer bach o'r ymatebwyr amheuon ynghylch yr angen i'r ymgeisydd nodi'r costau cynnal a chadw hirdymor a chyllid ar gyfer rhedeg a chynnal a



chadw'r system. Roedd rhai o'r farn mai'r corff mabwysiadu fyddai yn y sefyllfa orau i wneud hynny.

7.4 Cafwyd un awgrym y dylai'r egwyddor hefyd gael ei hymgorffori yn y safonau manwl ac yn yr adran ganllawiau yn y Safonau SuDS. Awgrymodd ymatebwr arall y dylai fod cymorth ar gael ar gyfer gwella sgiliau dylunio mewn perthynas â rheoli dŵr wyneb.

7.5 Daeth nifer o themâu allweddol i'r amlwg mewn ymateb i Gwestiwn 6:

- Cytundeb cyffredinol ynghylch ychwanegu'r egwyddor arfaethedig, yn ddarostyngedig i eglurhad ynghylch ystyr "oes ddisgwyliedig".
- Consensws y dylai sefydlu gofynion cynnal a chadw a'r costau cysylltiedig ar gyfer systemau draenio arfaethedig fod yn broses gydweithredol ac yn gam cynnar gorfodol.
- Sylwadau y dylai cynllun rheoli a chynnal a chadw SuDS sy'n cynnwys costau oes gyfan systemau fod yn rhan orfodol o'r cais SuDS i'w gymeradwyo gan y SAB. Rhoddodd nifer o ymatebwyr sylwadau ychwanegol ynghylch yr hyn y dylid ei gynnwys yn y cynllun.

7.6 Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

*"Ydyn, mewn egwyddor, ond nid yr ymgeiswyr yn unig ond pawb sy'n gysylltiedig â darparu'r system ddraenio gynaliadwy. Ydy ... [mae'r sefydliad hwn] o'r farn bod yr ychwanegiad arfaethedig at yr egwyddorion yn ddigonol." Busnes*

*"Bu i arolwg diweddar o'r enw 'Sut y gallwn wneud i SuDS weithio?' gadarnhau bod un o'r prif rwystrau rhag defnyddio SuDS yn ymwneud â pherchnogaeth a mabwysiadu, a'r ansicrwydd dilynol ynghylch y gwaith cynnal a chadw tymor hir. Rydym yn credu bod y cynnig i ymgeiswyr amlinellu gofynion cynnal a chadw eu system ddraenio arfaethedig a nodi sut y bydd y rhain yn cael eu hariannu yn gam cadarnhaol yn y cyfeiriad iawn. Dylai hyn helpu i hyrwyddo mabwysiadu ac osgoi rhwymedigaethau nad ydynt wedi cael eu hariannu rhag syrthio ar berchnogion adeiladau cysylltiedig." Gweithwyr proffesiynol y sector*

*"Dylai'r strategaeth gynnal a chadw, fodd bynnag, gael ei datblygu mewn cydweithrediad â'r corff mabwysiadu i ystyried yr holl ofynion. Rhaid i'r gofynion cynnal a chadw gael eu cytuno ymlaen llaw ac ar adeg gynnar yn y broses." Awdurdod lleol*

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

7.7 Mae cefnogaeth gref i'n hychwanegiad arfaethedig at adran egwyddorion y Safonau SuDS. Bydd symud ymlaen gyda threfniadau ar gyfer cychwyn Atodlen 3 yn gwneud y gofyniad i ymgeiswyr sefydlu gofynion cynnal a chadw eu system ddraenio arfaethedig yn gynnar yn y broses yn orfodol, fel un o'r egwyddorion sy'n sail i'r Safonau SuDS.

7.8 Bydd cyfle yn ystod yr ymgynghoriad hwn ar gyfer ymgysylltu cadarnhaol pellach ynghylch y themâu allweddol a amlinellir uchod.


7.9 Rydym wedi nodi sylwadau mewn perthynas â gwella sgiliau ar gyfer dylunio SuDS ac yn ceisio safbwyntiau pellach ynghylch cymorth ar gyfer hyfforddiant.

7.10 Rydym yn credu bod gweithio mewn modd cydweithredol, cyn i'r datblygu ddechrau, rhwng datblygwyr, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid eraill, yn hanfodol er mwyn cyflawni SuDS effeithiol a llwyddiannus ar gyfer y tymor hwy. Er nad oes cwestiwn penodol yn hyn o beth yn yr ymgynghoriad cyfredol, rydym, serch hynny, yn awyddus i glywed awgrymiadau ynghylch sut y gellir annog cydweithio yn gynnar yn y broses.

**8. Cwestiwn 7: A ydych yn cytuno â'n barn bod angen i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth er mwyn ymarfer a chyflawni swyddogaeth y SAB? Awgrymwch sut y gellid cyflawni hyn.**

8.1 Rydym yn credu bod gwaith partner rhwng awdurdodau lleol yn hanfodol i gyflawni SuDS effeithiol a llwyddiannus ar gyfer y tymor hwy. Roedd Cwestiwn 7 yn ceisio safbwyntiau ynghylch sut y gellid cyflawni hyn.

**Ffigur 8 – Ymatebion i Gwestiwn 7**



### **Crynodeb o'r ymatebion**

- 8.2 Bu i'r rhan fwyaf o'r rheiny a ymatebodd i'r ymgynghoriad ateb y cwestiwn hwn a/neu roi sylwadau ychwanegol yn nodi bod cytundeb cyffredinol ar yr angen i awdurdodau lleol weithio mewn partneriaeth.
- 8.3 Roedd cefnogaeth gref i gydweithio gan awdurdodau lleol. Roedd y rheiny a roddodd sylwadau ychwanegol yn awgrymu y byddai gweithio mewn partneriaeth yn golygu y byddai modd rhannu adnoddau, arbenigedd a'r arferion gorau, ac y byddai'n fwy tebygol o annog SuDS sy'n defnyddio dull dalgylch basn afon ar gyfer draenio dŵr wyneb. Rhoddodd nifer o ymatebwyr enghreifftiau lle mae Grwpiau Rheoli Perygl Llifogydd anstatudol rhanbarthol eisoes wedi cael eu sefydlu ac yn cydweithio ar draws ffiniau awdurdodau lleol. Awgrymodd un ymatebwr y posibilrwydd o ganolfan SAB rhanbarthol neu genedlaethol a rennir rhwng awdurdodau lleol i ymgymryd â'r elfennau gweinyddol o swyddogaeth y SAB.
- 8.4 Nid oedd nifer fach o ymatebwyr yn glir ynghylch sut y byddai arfer a chyflawni swyddogaeth y SAB yn gweithio'n ymarferol. Gwnaeth ymatebwyr eraill sylwadau ynghylch pwysigrwydd gwybodaeth awdurdodau lleol am safleoedd ac ardaloedd lleol, a llwyddo i weithredu swyddogaeth y SAB yn gyson ar draws yr awdurdod lleol.
- 8.5 Daeth y themâu allweddol a ganlyn i'r amlwg mewn ymateb i Gwestiwn 7:
- Consensws y dylai awdurdodau lleol fod â'r hyblygrwydd i bennu a sefydlu unrhyw drefniadau cydweithio ar gyfer cyflawni swyddogaeth y SAB.
  - Awgrymiadau y gallai awdurdodau lleol weithredu ar sail ranbarthol mewn perthynas â SuDS a chyflawni swyddogaeth y SAB trwy drefnu bod grwpiau anstatudol rhanbarthol sy'n bodoli eisoes yn ymdrin â rhai elfennau o raglen y SAB.
  - Cydnabyddiaeth mai'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal fyddai'n parhau â'r cyfrifoldeb cyffredinol am arfer a chyflawni swyddogaeth y SAB (pan fo'r awdurdod lleol hefyd yn gorff cymeradwyo SuDS ar gyfer yr ardal o dan baragraff 6(1) Atodlen 3).

8.6 Bu i sylwadau eraill a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn awgrymu y byddai hyfforddiant i feithrin gallu ac i roi cymorth yn y tymor byr ag agweddau technegol manwl ar gymeradwyo SuDS, hefyd yn cefnogi awdurdodau lleol i arfer swyddogaeth y SAB o ran gwneud y defnydd gorau o adnoddau, cynyddu arbenigedd a rhannu'r arferion gorau.

8.7 Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

*"Ydyn, rydym yn cytuno y dylid cydweithio â rhanddeiliaid allweddol mewn perthynas â swyddogaeth y SAB. Er ein bod yn cydnabod y gall swyddogaeth y SAB ddod o dan bob awdurdod lleol unigol, byddem yn argymhell edrych ar gydweithio ar lefel ranbarthol er mwyn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i rannu arferion da ac arbenigedd a defnyddio dull o weithredu sy'n seiliedig ar ddaigylchoedd mewn perthynas â SuDS."* Awdurdod lleol

*"Rydym yn cytuno y dylid ystyried yr egwyddor o bartneriaeth er mwyn arfer a chyflawni swyddogaeth y SAB, ond dylai hyn fod yng nghyd-destun yr awdurdod lleol o dan sylw."* Gweithiwr proffesiynol yn y sector

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

8.8 Roedd consensws cryf ymhlith awdurdodau lleol dros feddu ar yr hyblygrwydd i bennu sut maent yn gweithio mewn partneriaeth ac yn cyflawni swyddogaeth y SAB. Fel yr amlinellir ym Mhapur Gwyn Llywodraeth Cymru ar gyfer diwygio llywodraeth leol, rydym yn credu y dylai awdurdodau lleol feddu ar yr hyblygrwydd i bennu trefniadau ar gyfer cydweithio ar draws ardaloedd awdurdodau lleol. Rydym yn annog awdurdodau lleol i gydweithio er mwyn gwneud y defnydd gorau o'u hadnoddau a'u harbenigedd, ac rydym yn credu bod gwaith mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol yn hanfodol i gyflawni SuDS effeithiol a llwyddiannus ar gyfer y tymor hwy.

8.9 Rydym o'r farn y bydd cychwyn Atodlen 3 yn rhoi'r hyblygrwydd a'r cyfle i awdurdodau lleol gydweithio, fel yr amlinellir isod:


- Bydd symud ymlaen â'r trefniadau a ddarperir o dan baragraff 6(1) o Atodlen 3 yn rhoi cyfrifoldeb ar yr awdurdod lleol i arfer a chyflawni swyddogaeth y SAB. Rydym yn cytuno y gallai awdurdod lleol, lle mai ef hefyd yw'r corff cymeradwyo SuDS, gydweithio ar lefel ranbarthol ar SuDS a chyflawni rhai elfennau o swyddogaeth y SAB trwy grwpiau rhanbarthol sy'n bodoli eisoes rhwng awdurdodau lleol ac sy'n ymdrin â rhai agweddau ar raglen y SAB.
- Fel arall, mae'n bosibl y bydd awdurdodau lleol yn dymuno ystyried a oes cyfle o dan baragraff 6(3) o Atodlen 3 i benodi corff cymeradwyo SuDS ar gyfer un neu fwy o ardaloedd penodol (yn hytrach na'r awdurdod lleol ar gyfer yr ardal o dan baragraff 6(1) o Atodlen 3). Yn yr ymgynghoriad hwn, rydym yn annog awdurdodau lleol i gyflwyno unrhyw gynigion o'r fath ar gyfer trefniadau amgen y gellid eu sefydlu o dan y ddarpariaeth hon.

8.10 Rydym wedi nodi'r sylwadau ychwanegol a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn am feithrin gallu a rhoi cymorth technegol i awdurdodau lleol yn y tymor byr. Mae rhoi cymorth i awdurdodau lleol sy'n arfer swyddogaeth y SAB yn fater yr ydym yn rhoi ystyriaeth ehangach iddo.

**9. Cwestiwn 8: Oes unrhyw gyrff eraill a ddylai gael eu penodi i gymeradwyo a mabwysiadu SuDS? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.**

9.1 Roedd y cwestiwn hwn yn rhoi cyfle i ymatebwyr awgrymu pa gorff arall ar wahân i'r awdurdod lleol y dylid ei benodi i gymeradwyo a mabwysiadu SuDS.

**Ffigur 9 – Ymatebion i Gwestiwn 8**



**Crynodeb o'r ymatebion**

9.2 Dywedodd tua hanner y rheiny a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn mai'r awdurdod lleol yw'r corff priodol ar gyfer cymeradwyo a mabwysiadu SuDS – gydag ychydig dros chwarter o'r ymatebwyr yn methu â rhoi ateb i'r cwestiwn hwn.

9.3 Roedd dros hanner yr ymatebion gan awdurdodau lleol yn awgrymu mai'r awdurdod lleol sydd yn y sefyllfa orau i ymgymryd â swyddogaeth y SAB. Dywedodd nifer o'r ymatebwyr hyn fod gan awdurdodau lleol yr wybodaeth a'r buddiannau lleol anenrheidiol, a gwnaethant sylwadau ynghylch y gydbertynas rhwng rôl y SAB a swyddogaethau a dyletswyddau eraill awdurdodau lleol, gan gynnwys perygl llifogydd, draenio tir, priffyrdd a chynllunio gwlad a thref. Bu i un ymateb hefyd dynnu sylw at gysylltiadau rhwng swyddogaeth y SAB a buddiannau cymunedau lleol ac economaidd-gymdeithasol awdurdodau lleol.

9.4 Roedd nifer fach o ymatebion gan awdurdodau lleol yn awgrymu y gallai cwmnïau dŵr a charthffosiaeth ymgymryd â swyddogaeth y SAB. Gwnaeth rhai o'r rhain ychwanegu sylwadau bod cwmnïau dŵr a charthffosiaeth eisoes yn ymgymryd â swyddogaethau tebyg, ac roedd gan eraill amheuon ynghylch buddiannau allanol yn gwrthdaro â'r gwaith o gyflawni swyddogaethau rhynggysylltiedig eraill awdurdodau lleol.

9.5 Roedd ychydig o ymatebion, cwpl gan awdurdodau lleol a nifer fach gan sectorau eraill, yn awgrymu y gallai swyddogaeth y SAB gael ei chyflawni gan naill ai awdurdodau lleol, cwmnïau dŵr a charthffosiaeth, neu Cyfoeth Naturiol Cymru. Roedd yr awgrymiadau eraill yn cynnwys awdurdodau rheoli perygl llifogydd a oedd wedi'u sefydlu eisoes neu awdurdod annibynnol newydd.

9.6 Roedd rhai o'r ymatebion hyn yn awgrymu y gallai'r elfennau mabwysiadu sy'n rhan o swyddogaeth y SAB gael eu cyflawni ar wahân neu gael eu hisgontractio i gorff arall. Roedd yr ymateb gan ddatblygwyr yn awgrymu y dylai fod hyblygrwydd i ganiatáu i gyrff eraill ymgymryd â gwaith cymeradwyo a mabwysiadu. Mewn cyferbyniad â hynny, bu i ymateb arall nodi'r angen am eglurder a sicrwydd ynghylch mabwysiadu, a dywedodd un arall fod

yn rhaid i'r cyfrifoldeb terfynol am fabwysiadu SuDS a sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu a'u cynnal a'u cadw'n effeithiol yn y tymor hwy barhau i fod yn gyfrifoldeb i gorff statudol.

#### 9.7 Daeth y themâu allweddol a ganlyn i'r amlwg mewn ymateb i Gwestiwn 8:

- Consensws cryf ymhlith awdurdodau lleol mai'r awdurdod lleol, yn hytrach nag unrhyw gorff arall, yw'r corff mwyaf priodol i ymgymryd â gwaith cymeradwyo a mabwysiadu SuDS.
- Sylwadau ynghylch y rhyngysylltiad rhwng swyddogaeth y SAB a swyddogaethau eraill awdurdodau lleol.
- Sylwadau ynghylch yr elfennau mabwysiadu sy'n rhan o swyddogaeth y SAB yn cael eu cyflawni ar wahân neu'n cael eu hisgontractio er mwyn i'r cyfrifoldeb terfynol barhau i fod yn gyfrifoldeb i'r corff statudol sy'n atebol i'r cyhoedd.

#### 9.8 Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

*"Mae ein hymchwil wedi dangos bod gan ymgymerydd carthffosiaeth amrediad o sgiliau perthnasol ac maent eisoes yn rheoli sawl agwedd ar y cylchred dŵr. Mae ganddynt brofiad ymarferol o ddraenio yn ogystal â seilwaith codi ffioedd a allai helpu i gefnogi gwaith cynnal a chadw tymor hir – er enghraifft, trwy ffioedd am ddraenio dŵr wyneb. Er hynny, mae rhywfaint o betruster gan y gallai hyn annog dulliau gweithredu mwy 'caled' ar gyfer SuDS yn hytrach na'r rheini sy'n arwain at nifer o fanteision. Mae rhai cwmnïau dŵr wedi nodi ei bod yn well ganddynt bibellau a thanciau sy'n cynyddu Gwerth eu Hasedau a Gedwir...*

*Yn ein harolwg o weithwyr proffesiynol, gwnaethom ofyn "pwy ddylai 'fabwysiadu' SuDS?" Roedd rhywfaint o anghytundeb, gyda 40% o blaid awdurdod lleol a 28% yn dewis yr ymgymerydd carthffosiaeth. Felly, rydym yn credu y dylent gael eu cyflawni gan gorff statudol sy'n atebol i'r cyhoedd – naill ai'r awdurdod lleol neu'r ymgymerydd carthffosiaeth. Gallai'r corff hwnnw wedyn, pe bai angen, gontractio'r gwaith cynnal a chadw allan i sefydliad arall." Gweithiwr proffesiynol yn y sector*

*"Rydym yn credu mai awdurdodau lleol sydd yn y sefyllfa orau i reol perygl llifogydd lleol ac i gyflawni'r gwaith o gymeradwyo SuDS trwy rôl y SAB.*

*Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn dynodi'r awdurdod lleol fel yr awdurdod rheoli risg sydd â'r ddyletswydd statudol ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol. Bydd creu'r SAB o fewn yr awdurdod lleol yn cynorthwyo gyda'r gwaith o gyflawni'r rôl hon. Ers sefydlu Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol, mae arbenigedd wedi cael ei ddatblygu o fewn awdurdodau lleol ac mae ganddynt wybodaeth benodol am berygl llifogydd lleol a gofynion draenio.*

*Elfen allweddol o gyflawni rôl y SAB o fewn yr awdurdod lleol fydd gwybodaeth am berygl llifogydd lleol a materion yn ymwneud â draenio/priffyrdd, a'r cyfrifoldeb cyfredol am waith cynnal a chadw.*

*Byddai creu corff newydd yn dileu gallu'r awdurdod lleol i reoli ei berygl llifogydd ei hun yn well, ac yn creu dryswch i ddatblygwyr/y cyhoedd." Awdurdod lleol*


#### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

- 9.9 At ei gilydd, mae consensws mai'r awdurdod lleol, yn hytrach nag unrhyw gorff amgen, yw'r corff mwyaf priodol i gael ei benodi i ymgymryd â'r gwaith o gymeradwyo a mabwysiadu SuDS.
- 9.10 Mae sylwadau sy'n awgrymu y gallai rhai elfennau o swyddogaeth y SAB gael eu cyflawni gan gorff ar wahân wedi cael eu nodi. Fodd bynnag, cydnabyddir yn eang mai un o'r rhwystrau allweddol sy'n atal SuDS sydd wedi'u tirweddu ac sydd o ansawdd da rhag cael eu defnyddio o dan y system gyfredol yw ansicrwydd ynghylch mabwysiadu a gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol.
- 9.11 Ein bwriad yw darparu'r sicrwydd a'r eglurder sydd eu hangen trwy symud ymlaen â'r trefniadau i weithredu Atodlen 3, gan bennu mai awdurdodau lleol fydd y SAB ac mai nhw fydd yn gyfrifol am gymeradwyo a mabwysiadu SuDS.
- 9.12 Rydym yn credu bod hyblygrwydd yn y fframwaith deddfwriaethol i'r SAB isgontractio elfennau o'r rôl fabwysiadu ar gyfer cynnal a chadw SuDS, gan barhau i fod yn gyfrifol am sicrhau bod y system yn cael ei chynnal a'i chadw yn unol â'r Safonau SuDS.

**10. Cwestiwn 9: A ydych yn cytuno â'n cynigion ynglŷn â'r hyn a ddylai orfod cael cymeradwyaeth gan gorff cymeradwyo SuDS a'r hyn yr ydym yn cynnig ei eithrio? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.**

- 10.1 Caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchmynion ynghylch y math o waith sydd i'w drin neu nad yw i'w drin fel pe bai iddo oblygiadau draenio o dan amgylchiadau penodedig.
- 10.2 Rydym yn cynnig y byddai angen esemptio tri math penodol o ddatblygiad rhag y gofyniad am gymeradwyaeth gan y SAB:
- Cefnffyrdd a thraffyrdd a reolir gan Lywodraeth Cymru yng Nghymru.
  - Gwaith adeiladu a gynhelir gan Cyfoeth Naturiol Cymru fel y bwrdd draenio mewnol wrth arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf Draenio Tir 1991.
  - Adeiladu rheilffordd

**Ffigur 10 – Ymatebion i Gwestiwn 9**



### **Crynodeb o't ymatebion**

10.3 Roedd y rhan fwyaf a roddodd ateb clir i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r esemptiadau arfaethedig. Roedd nifer o'r rheiny a oedd yn anghytuno yn credu na ddylai fod unrhyw esemptiadau. Themâu cyffredin gan y rheiny a wnaeth sylwadau ar yr esemptiadau oedd y rhyngwyneb â hawliau datblygu a ganiateir, statws anheddau sengl, ac effeithiau cronus estyniadau tai a datblygiadau bach eraill. Bu i'r esemptiad ar gyfer cefnffyrdd dderbyn sylwadau o'i blaid ac yn ei erbyn. Awgrymodd un awdurdod lleol y dylai pob awdurdod priffyrdd gael ei esemptio. Roedd rhai o'r ymatebwyr unigol am weld esemptiadau ar gyfer cynlluniau adfer i ddraenio dŵr o fwyngloddiau a mynegodd corff mordwyo statudol bryder am y ffaith y gallai'r gofynion fod yn berthnasol i ddatblygiadau amaethyddol.

10.4 Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

*"Hoffem hefyd weld gwaith yn cael ei gyflawni gan yr ymgymwrwr carthffosiaeth neu waith yn cael ei gynnwys mewn cytundeb Adran 104 fel esemptiad penodol oherwydd y ffaith bod darpariaethau deddfwriaethol yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991. Byddai dyblygu hyn yn rhoi mwy o faich ar ymgymwrwr a datblygwyr, ac mae'n bosibl y gallai hefyd lastwreiddio effeithiolrwydd y ddwy broses." Cwmni cyfleustodau*

*"Nid yw'n glir pam byddai Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflwyno ... esemptiadau ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru fel corff draenio a'r Asiantaeth Cefnffyrdd fel awdurdod priffyrdd, pan nad yw'n estyn yr esemptiadau i awdurdodau lleol sy'n cyflawni'r un swyddogaethau yn union." Awdurdod lleol*

*"...mae adeiladu annedd sengl yn cael ei esemptio rhag yr angen i gael cymeradwyaeth ond nid oes sôn am esemptio datblygiad bach gan ddeiliad tŷ na sôn ynghylch pam y rhoddir esemptiad i annedd sengl." Awdurdod lleol*

*"...bydd angen tynnu'r holl hawliau datblygu a ganiateir yn ôl oddi wrth unrhyw ddatblygiad newydd, gan mai prin yw'r datblygwyr ar hyn o bryd sy'n caniatáu ar gyfer gorddwysáu trefol yn eu dyluniadau." Awdurdod lleol*



*"Os ydym am reoli a goruchwylio dŵr wyneb ffo yn effeithiol, ni ddylai fod unrhyw esemptiadau." Corff masnachu*

*"...ystyrir y dylai pob datblygiad, gan gynnwys prosiectau seilwaith o arwyddocâd cenedlaethol, gael ei gynnwys." Awdurdod lleol*

*"O'n profiad ni o ddyluniadau ar gyfer cefnffyrdd, mae'n ymddangos mai cynaliadwyedd yw'r brif ystyriaeth wrth ddylunio." Ymgynghorydd*

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**


- 10.5 Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau bod y gofyniad am gymeradwyaeth gan y SAB yn cael ei gymhwyso mewn modd cymesur, heb roi gormod o faich ar y SAB na'r datblygwr. Rydym yn ymwybodol o'r posibilrwydd y gallai estyniadau bach a phalmantau gael effaith gronnu, a'r pryder hwnnw yw sail yr amodau sy'n gysylltiedig â Hawliau Datblygu a Ganiateir ac sy'n gymwys i ddatblygiadau o'r fath. Felly, rydym yn credu bod ein terfyn arfaethedig ar gyfer datblygiadau sydd dros 100 metr sgwâr yn briodol.
- 10.6 Roeddem wedi cynnig y dylai anheddau sengl gael eu hesemptio o'r gofyniad am gymeradwyaeth, a bu i nifer o ymatebwyr fynegi'r farn y gallai hyn beri anawsterau – lle mae datblygiad yn cael ei isrannu neu o ganlyniad i effeithiau cronnu. Awgrymodd un ymatebwr y gellid llunio canllawiau syml penodol ar gyfer datblygiadau o'r fath, a byddwn yn rhoi mwy o ystyriaeth i'r cynnig hwnnw.
- 10.7 Yn ystod ein hymgynghoriad, nodwyd tri maes datblygu y gellid eu hesemptio.
- Cynigiwyd cefnffyrdd a thraffyrdd ar sail y ffaith eu bod yn cael eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â'r Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd, sy'n cynnwys canllawiau ar ddraenio sy'n briodol ar gyfer cefnffyrdd ac yn cydymffurfio ag egwyddorion SuDS. O ystyried yr amrediad eang o ddatblygiadau y mae adrannau priffyrdd awdurdodau lleol yn gyfrifol amdanynt, gallai gofynion y Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd fod yn rhy feichus. O ganlyniad, nid ydym yn credu ei bod yn briodol rhoi esemptiad cyffredinol i bob awdurdod priffyrdd.
  - Mae'n annhebygol, beth bynnag, y byddai angen cymeradwyaeth y SAB ar gyfer gwaith a wneir gan Cyfoeth Naturiol Cymru wrth arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf Draenio Tir 1991. Byddwn yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gynnwys gwaith a wneir gan awdurdodau llifogydd lleol arweiniol fel rhan o'n gwaith ymgynghori pellach.
  - Nid yw adeiladu rheilffyrdd, at ei gilydd, yn newid hydreddedd yn sylweddol, o ystyried natur hydraid y gwaith arferol o adeiladu rheilffyrdd. Gan fod y rhan fwyaf o ddatblygiadau rheilffyrdd yn digwydd ar diroedd lle mae rheilffyrdd eisoes, mae'n debyg na fydd datblygiadau newydd yn aml. Rydym yn bwriadu trafod yr esemptiad hwn ymhellach â rhanddeiliaid allweddol cyn gwneud penderfyniad terfynol.

**11. Cwestiwn 10: A ydych yn cytuno â'n terfynau amser penodedig arfaethedig o ran pryd y mae'n rhaid i'r SAB benderfynu ynglŷn â cheisiadau i'w cymeradwyo? Os nad ydych, cynigiwch derfynau amser eraill a rhowch resymau.**

11.1 Rydym yn bwriadu cynnwys terfynau amser penodedig yn y rheoliadau o ran erbyn pryd y mae'n rhaid i'r SAB wneud penderfyniad ynglŷn â chymeradwyo ceisiadau (boed yn geisiadau annibynnol neu'n geisiadau cyfunol). Wrth wneud hynny, rydym am sicrhau nad yw'r terfynau'n achosi unrhyw oedi i'r datblygiad.

11.2 Gwnaethom gynnig, lle bo angen Asesiad o'r Effeithiau Amgylcheddol,<sup>1</sup> fod yn rhaid i'r SAB wneud penderfyniad ynglŷn â chymeradwyo ceisiadau o fewn 12 wythnos, ac ar gyfer ceisiadau eraill o fewn 7 wythnos. Mae'r ddau derfyn hyn o leiaf un wythnos yn llai na'r rheiny o dan y system gynllunio. Er mwyn sicrhau hyblygrwydd, rydym yn cynnig ym mhob achos y dylai'r SAB a'r ymgeisydd allu cytuno i estyn yr amserlen ar yr amod nad yw'r terfynau amser a nodwyd wedi mynd hebio.

**Ffigur 11 – Ymatebion i Gwestiwn 10**



**Crynodeb o'r ymatebion**

11.3 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid pennu terfynau amser ar gyfer gwneud penderfyniad. Roedd hanner yr ymatebwyr o blaid y terfynau amser arfaethedig a phump yn amlwg yn eu herbyn. Themâu cyffredin oedd y broblem o ddiffyg adnoddau er mwyn i'r SAB fedru cyflawni o fewn y terfynau amser hyn, a'r cysylltiadau â phrosesau cynllunio a'r effaith bosibl arnynt. Roedd nifer o awdurdodau lleol yn pryderu y byddai'n achosi oedi wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Bu i nifer o ymatebion bwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu cyn ymgeisio wrth sicrhau penderfyniadau amserol.

11.4 Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

*"Mae'r amserlenni i'w gweld yn dynn iawn os yw hon yn broses a fydd yn cael ei rhedeg ochr yn ochr â'r broses gynllunio ac os ydym am sicrhau ei bod yn cael ei hintegreiddio â'r broses honno." Awdurdod lleol*

<sup>1</sup> Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) (Cymru) 2017

*"...rydym yn cytuno â'r amserlenni arfaethedig ond dim ond os yw'r corff cymeradwyo SuDS yn cael digon o adnoddau."* Awdurdod lleol

*"Byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ymgynghori ymhellach yn y maes hwn ag awdurdodau lleol ac adrannau cynllunio Llywodraeth Cymru, er mwyn sicrhau bod holl elfennau'r cylch cynllunio'n cael eu hystyried".* Llywodraeth leol


*"Mae'r amserlen arfaethedig hefyd yn cyd-fynd â'r broses gynllunio, gan ei gwneud yn haws, o bosibl, i ddatblygwyr ei rheoli".* Datblygwyr

*"Nodir hefyd fod y broses o gymeradwyo SuDS ar wahân i'r broses o gymeradwyo ceisiadau cynllunio, ond disgwylir y bydd canlyniad y cais SuDS effeithio ar ganlyniad y cais cynllunio. A fyddai'n bosibl i gais cynllunio gael ei gymeradwyo os nas yw'n cael caniatâd SuDS?"* Corff proffesiynol

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

- 11.5 O ystyried y cytundeb ynghylch yr angen am derfynau amser a'r gefnogaeth i'r terfynau amser y bu inni eu cynnig, mae'r rhain wedi cael eu cynnwys yn yr offerynnau statudol yr ydym yn ymgynghori yn eu cylch ar hyn o bryd. Rydym yn cydnabod bod rhaid inni weithio'n agos gydag awdurdodau lleol i sicrhau eglurder yn y berthynas rhwng y broses gynllunio a chymeradwyaeth ar gyfer SuDS. Fodd bynnag, mae'r rhain yn annibynnol ar ei gilydd a gellir ceisio cymeradwyaeth ar gyfer SuDS yn hollol ar wahân i ganiatâd cynllunio. Nod y terfynau amser yr ydym wedi'u hargymell yw sicrhau nad yw'r broses o gymeradwyo SuDS yn cael effaith ar amserlenni datblygu cyffredinol, yn hytrach na chreu dibyniaeth rhwng y broses honno a chaniatâd cynllunio.
- 11.6 Rydym yn disgwyl y byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol yn ystod y cyfnod ymgynghori i sicrhau bod y rheoliadau'n ymarferol a bod canllawiau digonol ar gael.
- 12. Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno â'n cynnig i osod terfynau amser ar y SAB, sef bod yn rhaid iddo roi 21 diwrnod i ymgynghoreion statudol ymateb? Os nad ydych, rhowch resymau os gwelwch yn dda.**
- 12.1 Mae paragraff 11(3) Atodlen 3 i'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r SAB ymgynghori â chyrrff penodol os oes posibilrwydd y bydd y cais yn cael effaith ar yr ymgynghorai hwnnw.
- 12.2 O dan baragraff 11(5) Atodlen 3 i'r Ddeddf, rydym yn cynnig y dylid cynnwys y gofyniad yn y rheoliadau i'r SAB roi 21 diwrnod i ymgynghoreion statudol ymateb i'r cais, fel nad ydynt yn achosi oedi yn y broses gymeradwyo. Ein bwriad yw y byddai hyn yn berthnasol ni waeth a yw'r cais yn un annibynnol neu un cyfunol.

**Ffigur 12 – Ymatebion i Gwestiwn 11**



### **Crynodeb o'r ymatebion**

12.3 Mae'r ymgynghorion statudol yn cynnwys:

- Yr ymgymerwr carthffosiaeth os yw'r cais yn cynnwys cysylltu â charthffos gyhoeddus
- Cyfoeth Naturiol Cymru os bydd y dŵr gollwng yn mynd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i gwrs dŵr
- Yr awdurdod priffyrdd perthnasol os yw'r corff cymeradwyo'n credu y bydd y cais yn effeithio ar ffordd
- Glandŵr Cymru os yw'r dŵr gollwng yn mynd yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol i ddyrffordd a reolir ganddo

12.4 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi'r amserlenni arfaethedig i'r ymgynghorion statudol ymateb. Bu i un ymatebwr awgrymu amserlen fyrrach ac awgrymodd dau awdurdod lleol gyfnod o 28 diwrnod. Dywedodd un ymatebwr y byddai'n well ei gwneud yn glir y byddai methu ag ymateb o fewn 21 diwrnod yn cael ei drin fel "dim gwrthwynebiad na sylwadau" yn hytrach na "dim ymateb". Awgrymodd un awdurdod cynllunio y dylai'r datblygwr fod yn gyfrifol am gynnal yr ymgynghoriad cyn i'r cais gael ei wneud. Gwnaed nifer fach o sylwadau ynghylch yr adnoddau sydd eu hangen i sicrhau y bodlonir y terfynau amser.

12.5 Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

*"Ymgynghorir â rhai o'r ymgynghorion ynghylch y cais cynllunio ei hun hefyd, a gellid ystyried bod hyn yn ddyblygu gwaith ac y gallai beri problemau os na dderbynnir y ddau gyda'i gilydd."* Awdurdod lleol

*"Gallai cyngor sefydlog fod yn ddefnyddiol."* Awdurdod lleol


*"Byddai hyn yn rôl newydd ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru. Fodd bynnag, nid yw'r rheswm dros ymgynghori â Cyfoeth Naturiol Cymru am y mater hwn yn glir... er mwyn rhoi cyngor ynglŷn â pherygl llifogydd, ansawdd dŵr a/neu'r effaith bosibl ar ein gallu i reoli asedau sy'n*

*cael eu cynnal a'u cadw gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym yn argymhell y dylid gwneud y rheswm dros ymgynghori ag ymgynghoreion statudol yn glir mewn rheoliadau/canllawiau cysylltiedig." Rheoleiddiwr*

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

- 12.6 O ystyried y gefnogaeth i gyfnod ymgynghori o 21 diwrnod ar gyfer ymgynghoreion statudol, mae hyn wedi cael ei gynnwys yn y Rheoliadau Gweithdrefn sy'n ffurfio rhan o'r ymgynghoriad pellach. Rydym yn bwriadu ymchwilio i swyddogaeth canllawiau sefydlog yn ystod y cyfnod ymgynghori hwn, ac i ddefnyddio canllawiau i'w gwneud yn glir y dylai SAB ystyried bod methiant i ymateb i ymgynghoriad yn gyfystyr â dim gwrthwynebiad.
- 12.7 Dylid nodi hefyd fod y cyfeiriad at ymgynghori ag awdurdod priffyrdd yn ymwneud yn benodol â sefyllfa lle mae'r SAB a'r awdurdod priffyrdd yn rhan o sefydliad gwahanol. Mae'n egwyddor o dan y gyfraith na ddylai deddfwriaeth ei gwneud yn ofynnol i gorff ymgynghori ag ef ei hun.
- 13. Cwestiwn 12: A ydych yn cytuno â'n cynnig i bennu ffi genedlaethol? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau os gwelwch yn dda.**
- 13.1 Mae darpariaeth yn y Ddeddf i'r SAB godi ffi yn seiliedig ar adennill costau ar gyfer pob cais am gymeradwyaeth. Nid nod y ffi hon yw talu'r holl gostau y mae'r ymgynghoreion statudol yn mynd iddynt wrth ddarparu mewnbwn neu yn ystod unrhyw drafodaethau cyn ymgeisio.
- 13.2 Caiff Gweinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch ffioedd ar gyfer ceisiadau am gymeradwyaeth. Rydym yn cynnig bod yn rhaid i'r ffi gael ei chyflwyno ar yr un adeg â'r cais am gymeradwyaeth ar gyfer draenio.
- 13.3 Gwnaethom ystyried a fyddai'n briodol pennu strwythur ffioedd cenedlaethol ar gyfer cymeradwyo ceisiadau mewn modd tebyg i ffioedd am geisiadau cynllunio. O ystyried y bydd hon yn gyfundrefn newydd ac er mwyn sicrhau cysondeb, gwnaethom awgrymu y dylai'r ffi gymeradwyo gael ei phennu'n genedlaethol gan Weinidogion Cymru. Bu inni hefyd gynnig y dylid adrodd yn flynyddol am y ffi genedlaethol ac mai'r awdurdodau lleol ddylai wneud hynny.

**Ffigur 13 – Ymatebion i Gwestiwn 12**



### **Crynodeb o'r ymatebion**

13.4 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cefnogi ein cynnig, gyda llawer yn dyfynnu manteision cysondeb. Pwysleisiodd nifer o'r ymatebwyr ei bod yn bwysig bod y ffioedd yn talu costau'r SAB yn llawn a'u bod yn cael eu hadolygu'n flynyddol.

13.5 Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

*"Rhaid i unrhyw ffi genedlaethol dalu nid yn unig am yr agweddau gweinyddol ar gais, ond hefyd y gwaith o fetio'r dyluniad, archwilio gwaith a mabwysiadu posibl."* Awdurdod Lleol

*"Byddem felly yn annog Llywodraeth Cymru i gynnal ... ymarfer casglu data gyda'r awdurdodau lleol cyn penderfynu ar ffi..."* Awdurdod Lleol

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

13.6 O ystyried y gefnogaeth gref ar gyfer pennu ffioedd ar lefel genedlaethol, rydym wedi cynnwys y cynnig hwn yn y Rheoliadau Gweithdrefnol sy'n rhan o'r ymgynghoriad pellach hwn.


## **14. Cwestiwn 13: A ydych yn cytuno â'n cynnig ar gyfer y gyfradd ffioedd? Os nad ydych, rhowch resymau a chynigiwch gyfraddau eraill.**

14.1 Gwnaethom awgrymu y dylai ffioedd a bennir yn genedlaethol gael eu codi ar sail swm penodedig ar gyfer pob cais, yn ogystal â swm ychwanegol a bennir gan faint yr arwynebedd adeiladu, fel a ganlyn:

£350 ar gyfer pob cais yn ogystal â [hyd at gyfanswm o £7,500]:

Ar gyfer pob 0.1 hecтар hyd at 0.5 hecтар <sup>2</sup>	£70
Ar gyfer pob 0.1 hecтар rhwng 0.5 ac 1 hecтар	£50
Ar gyfer pob 0.1 hecтар rhwng 1 a 5 hecтар	£20
Ar gyfer pob 0.1 hecтар dros 5 hecтар	£10

Ffigur 14 – Ymatebion i Gwestiwn 13



### Crynodeb o'r ymatebion

14.2 Roedd y rhan fwyaf o'r rheiny a roddodd ymateb clir i'r cwestiwn hwn yn cytuno â'r ffigurau arfaethedig. Fodd bynnag, roedd nifer o'r ymatebion gan awdurdodau lleol yn anghytuno, gan roi tystiolaeth o'u costau posibl i ategu eu safbwynt. Roedd rhai awdurdodau lleol yn pryderu na fyddai'r ffioedd yn llawn dalu'r costau, gan geisio sicrwydd y byddai Llywodraeth Cymru yn tanysgrifennu unrhyw ddiffyg o ran incwm. Roedd rhai ymatebwyr yn credu bod y tabl ffioedd yn rhy gymhleth a bod rhywfaint o ddryswch ynghylch yr union weithgareddau yr oedd y ffioedd yn eu cynnwys.

Mynegodd un o'r ymatebwyr y farn y gallai ffioedd anghymesur olygu na fyddai datblygwyr yn gefnogol.

14.3 Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

*"Profiad peirianwyr draenio'r cyngor yw ei bod yn bosibl na fydd maint datblygiad yn ddangosydd defnyddiol o'r amser sy'n cael ei dreulio'n adolygu ac yn cymeradwyo dyluniad systemau dŵr wyneb arfaethedig. Yn aml, mae'r systemau draenio dŵr wyneb arfaethedig sy'n gwasanaethu datblygiadau mwy yn gofyn am lai o adnoddau i'w hadolygu na safleoedd llai. Efallai fod hyn yn adlewyrchu ansawdd y cyflwyniadau gan ddatblygwyr mwy o faint, sydd â gwell adnoddau a mwy o brofiad, a hefyd fwy o gyfle/lle ar safleoedd mwy o faint i ddylunio er mwyn osgoi cyfyngiadau."* Awdurdod lleol

<sup>2</sup> Dylid talgrynnu unrhyw ran o 0.1 hecтар o arwynebedd safle i fyny i'r 0.1 hecтар agosaf.

*"...mae cwestiynau ... wedi'u codi ynghylch y cynnig i leihau'r raddfa ffioedd pan fo llwyth gwaith yn cynyddu gyda safleoedd/datblygiadau mwy. Byddem yn anghytuno felly â'r ffioedd arfaethedig oni bai bod Llywodraeth Cymru yn ymrwymo mewn egwyddor i roi cymhorthdal ar gyfer unrhyw fylchau ar ffurf cyllid referniw." Awdurdod Lleol*

*"...rydym yn nodi bod y trefniadau codi tâl arfaethedig, yn ôl pob golwg, yn creu costau uwch ar gyfartaledd ar gyfer adeiladwyr llai." Datblygwr*

## Ymateb Llywodraeth Cymru


14.5 Rydym yn cydnabod yr anhawster o ran pennu ffioedd sy'n deg i ddatblygwyr ac awdurdodau lleol, sy'n adennill costau'n llawn ac y gellir eu rhoi ar waith ledled Cymru. Rydym wedi ymgorffori ein ffigurau arfaethedig yn y Rheoliadau Gweithdrefn at ddibenion ymgynghori. Rydym yn bwriadu gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, i brofi'r ffigurau hyn yn ystod y cyfnod ymgynghori. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl i awdurdodau lleol geisio cyflawni'r ddyletswydd newydd hon yn y modd mwyaf costeffeithiol posibl a gweithio gyda'i gilydd lle gallai hynny leihau costau.

14.6 Byddwn yn darparu manylion pellach mewn canllawiau am y gweithgareddau yr ydym yn disgwyl iddynt gael eu cynnwys yn y ffioedd ymgeisio.

## 15. Cwestiwn 14: A ydych yn cytuno â'n cynnig y dylai ffioedd yn y dyfodol gael eu pennu yn amodol ar adroddiadau blynyddol gan awdurdodau lleol er mwyn i'r SAB ddarparu gwybodaeth am gostau real? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

15.1 Gwnaethom gynnig y dylai'r ffi genedlaethol fod yn destun adroddiad blynyddol, a gynhelir gan awdurdodau lleol. Byddai hyn yn darparu'r sail ar gyfer ffioedd yn y dyfodol.

**Ffigur 15 – Ymatebion i Gwestiwn 14**



## Crynodeb o'r ymatebion

15.2 Gwnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr ateb y cwestiwn hwn ac roedd y rhan fwyaf yn cefnogi'r drefn adolygu arfaethedig. Gwnaeth sawl un bwysleisio bod angen sicrhau bod



ffioedd yn cyd-fynd â chostau, a gwnaeth rhai gysylltu'r adolygiad costau â pherfformiad y SAB.

15.3 Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

*"Mae £350 yn cyfateb i oddeutu wyth awr a dylai hynny dalu am y gwaith o ystyried y cais. Fodd bynnag, bydd costau'n cael eu creu wrth fynd ar drywydd cytundebau, camau gorfodi a goruchwyllo – sut y telir am y rhain?"* Awdurdod Lleol

*"Mae'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol yn darparu adolygiad codi tâl tebyg i Lywodraeth Cymru ar gyfer dyletswyddau eraill sy'n gysylltiedig â rheoli perygl llifogydd eraill."* Awdurdod Lleol

*"Er bod angen mynd ati'n rheolaidd ac yn barhaus i adolygu'r ffioedd, ystyrir bod ymgymryd ag adolygiad blynyddol yn feichus, ac y bydd yn arwain at ddryswch."* Awdurdod Lleol

*"...egwyddor adennill costau llawn – nid yw hon yn egwyddor sy'n bodoli ar hyn o bryd yn y broses gynllunio ..."* Datblygwr

*"Byddai angen mesur unrhyw gynnydd mewn ffioedd yn erbyn perfformiad hefyd."* Datblygwr

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

15.4 Roedd cytundeb cyffredinol â'r cynnig hwn, a byddwn yn ymgorffori system adolygu flynyddol wrth weithredu darpariaethau Atodlen 3. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gellid mesur ac adrodd am berfformiad y SAB.

## **16. Cwestiwn 15: A ydych yn cytuno â'n cynnig y dylai'r SAB godi tâl am y gweithgareddau hyn? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau os gwelwch yn dda.**

16.1 Gallai'r SAB godi tâl am drafodaethau cyn ymgeisio, pe bai'n dymuno gwneud, o dan y pwerau a roddwyd iddo yn Adran 93 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003.<sup>3</sup>


16.2 Rydym yn cynnig y dylai darpariaeth ar gyfer ffioedd gael ei gwneud hefyd mewn rheoliadau gan Weinidogion Cymru o dan baragraff 13 o Atodlen 3 i'r Ddeddf ar gyfer:

- ceisiadau i amrywio cymeradwyaeth, ar gyfer ceisiadau sy'n cael eu hailgyflwyno i'r SAB, ond y dylai'r rhain fod ar gyfradd ostyngol os cyflwynir dau gais neu ragor sy'n nodi cynigion gwahanol gyda'i gilydd.
- ceisiadau y mae angen iddynt gael eu cymeradwyo gan fwy nag un SAB am fod yr arwynebedd adeiladu yn croesi ardaloedd mwy nag un SAB, er mwyn sicrhau bod costau pob SAB yn cael eu hadennill.
- archwiliad o'r system ddraenio gan y SAB, os yw hyn yn digwydd ar unrhyw adeg yn ystod y broses o adeiladu SuDS.

<sup>3</sup> <http://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2003/26/section/93>

- amgylchiadau pan fo angen ad-dalu ffioedd ymgeisio, fel bod ffioedd ymgeisio'n cael eu had-dalu yn achos ceisiadau annilys neu pe bai'r SAB yn methu â phenderfynu ar gais o fewn yr amserlenni rhagnodedig.

**Ffigur 16 – Ymatebion i Gwestiwn 15**



**Crynodeb o'r ymatebion**

16.3 Aeth cyfran uchel o'r ymatebwyr i'r afael â'r cwestiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno â'n cynigion. Roedd rhai'n poeni y gallai codi tâl am drafodaethau cyn ymgeisio fod yn wrthgynhyrchiol.

16.4 Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

*"...rydym yn teimlo y gallai taliadau o'r fath fod yn wrthgynhyrchiol trwy rwystro ymgeiswyr rhag gwneud yr ymholiadau cyn ymgeisio anffurfiol sy'n arwain at geisiadau dilynol sy'n gymharol syml ... mae gweithgareddau o'r fath yn fuddiol i'r naill ochr a'r llall, oherwydd bod y datblygwr yn gallu gwneud y broses ymgeisio'n un gosteffeithiol, a bod y swyddog dan sylw'n dod yn gyfarwydd â manylion y prosiect, gan ei helpu yn ei waith."* Corff masnach

*"Rydym yn credu ei bod yn deg bod y SAB yn cael ei ad-dalu am y gweithgareddau y mae'n ymgymryd â nhw, a byddwn yn talu am yr adnoddau sydd eu hangen i sicrhau bod asesiadau technegol cadarn yn cael eu cynnal."* Cwmni cyfleustodau

*"Bydd hyn yn arbed costau dylunio diangen i'r datblygwr ar gyfer gwaith ofer gan sicrhau ei fod yn rhoi gwerth am arian. Os nad yw'r SAB yn cael codi tâl, ni fydd yn rhoi cyngor da a bydd costau cymeradwyo'n codi."* Corff proffesiynol

*"...Dywedwyd y gellir, trwy ymgysylltu'n gynharach, leihau cyfyngiadau gofodol trwy ddefnyddio nodweddion topograffig sy'n dod yn rhan o ddyluniad y dirwedd. ... Byddem yn annog felly na ddylai'r costau uchel niweidio'r ymgysylltu cynnar hwn."* Corff proffesiynol

*"Dylai'r ffi wreiddiol dalu am y costau hyn."* Ymgynghorydd

*"Dylai ffioedd ychwanegol gael eu mesur yn erbyn perfformiad."* Datblygwr

## Ymateb Llywodraeth Cymru

16.5 Wrth gytuno â'n cynigion o ran codi tâl, roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cydnabod bod angen digon o adnoddau ar gyfer y gwasanaeth a ddarperir gan y SAB. Byddwn yn ceisio sicrhau nad yw'r ffioedd yn annog pobl i beidio ag ymgysylltu'n gynnar, o ystyried yr holl fuddion mae ymgysylltu'n gynnar yn eu cynnig. Rydym yn cydnabod bod angen sicrhau bod lefelau'r gwasanaeth yn briodol er mwyn atal oedi gormodol i ddatblygiadau. Mae manylion pellach wedi'u cynnwys yn y Rheoliadau Gweithdrefn sy'n rhan o'r ymgynghoriad pellach. (Gweler Rhan 2 – Ceisiadau.)


### 17. Cwestiwn 16: A ydych yn cytuno â'n hawgrym y dylai'r SAB benderfynu ynglŷn â chais i fabwysiadu o fewn wyth wythnos? Os nad ydych, rhowch eich rhesymau os gwelwch yn dda.

17.1 Mae paragraff 17 o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i'r SAB fabwysiadu systemau draenio sy'n bodloni'r amodau a ganlyn:

- bod y system ddraenio wedi cael ei hadeiladu yn unol â'r gymeradwyaeth
- bod y system ddraenio wedi cael ei hadeiladu a'i bod yn gweithio yn unol â'r gymeradwyaeth
- bod y system ddraenio yn system ddraenio gynaliadwy.

17.2 Mae paragraff 23 o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn galluogi'r SAB i fabwysiadu ar ei fenter ei hun neu ar gais y datblygwr. Roedd Cwestiwn 16 yn ceisio safbwyntiau am ein cynnig i fynnu bod y SAB yn penderfynu ynglŷn â cheisiadau o fewn cyfnod o wyth wythnos.

**Ffigur 17 – Ymatebion i Gwestiwn 16**



### Crynodeb o'r ymatebion

17.3 Roedd dros hanner yr holl bobl a ymatebodd i'r ymgynghoriad hwn yn cytuno y dylai'r SAB benderfynu ynglŷn â chais i fabwysiadu o fewn cyfnod o wyth wythnos. Roedd nifer o'r ymatebion hyn yn nodi bod y cyfnod amser hwn yn cyd-fynd yn dda â'r broses gynllunio. Gwnaeth ychydig dan chwarter o'r holl ymatebwyr fethu â rhoi ateb i'r cwestiwn hwn.

17.4 Roedd bron yr holl awdurdodau lleol a ymatebodd i'r ymgynghoriad yn cefnogi'r cyfnod amser arfaethedig o wyth wythnos. Gwnaeth nifer ohonynt gyflwyno sylwadau ychwanegol hefyd. Roedd rhai o'r rheiny'n awgrymu efallai y byddai'n anodd penderfynu ar geisiadau o fewn wyth wythnos yn achos safleoedd datblygu mawr neu pe na bai'r dogfennau ategol angenrheidiol yn cael eu cyflwyno gyda'r cais. Roedd eraill yn awgrymu y dylid cynnwys cyfnod cynnal tebyg i'r un ar gyfer mabwysiadu priffyrdd er mwyn sicrhau bod y SuDS yn gweithio'n foddhaol cyn i'r broses fabwysiadu gael ei chwblhau. Roedd cwpl o ymatebion yn cadarnhau eu bod yn cytuno cyhyd â bod y SAB yn cael digon o adnoddau. Roedd un ymateb yn awgrymu y dylai'r egwyddorion ar gyfer mabwysiadu gael eu pennu yn ystod y cyfnod ymgeisio.

17.5 Roedd un awdurdod lleol yn anghytuno â'r cyfnod amser arfaethedig ac awgrymodd gyfnod arall o 24 mis o leiaf i gyd-fynd â mabwysiadu priffyrdd a chaniatáu digon o amser i ddangos bod y SuDS yn gweithio'n foddhaol.

17.6 Gwnaeth cwpl o ymatebion o sectorau eraill ddarparu sylwadau ychwanegol. Awgrymodd un y gallai'r cyfnod amser fod yn fyrrach nag wyth wythnos, tra awgrymodd un arall y dylai fod hyblygrwydd i estyn y cyfnod amser.

17.7 Daeth y themâu allweddol a ganlyn i'r amlwg mewn ymateb i Gwestiwn 16:

- Cytundeb cyffredinol cryf y dylai'r SAB benderfynu ynglŷn â chais i fabwysiadu o fewn wyth wythnos.
- Sylwadau ynglŷn â chael hyblygrwydd dan amgylchiadau penodol er mwyn penderfynu ar geisiadau y tu allan i'r cyfnod amser o wyth wythnos.
- Sylwadau ynglŷn â sicrhau bod gan y SAB ddigon o adnoddau.

17.8 Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

"Ydyn. Mae'r amserlen a awgrymir yn unol â phrosesau/gweithdrefnau eraill. Fodd bynnag, dim ond ar ôl i gyfnod cynnal gael ei gwblhau'n foddhaol y dylai'r amserlen honno fod yn gymwys." Awdurdod lleol

*"Mae'r [...] yn ystyried bod hyn yn gyfnod amser rhesymol ac yn unol â'r broses gynllunio."*  
Busnes

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**


17.9 Roedd cytundeb cryf y dylai'r SAB benderfynu ynglŷn â chais i fabwysiadu o fewn cyfnod amser o wyth wythnos, a hynny ar yr amod bod ganddo hyblygrwydd dan amgylchiadau penodol. Yn y rheoliadau drafft sy'n rhan o'r ymgynghoriad cyfredol hwn, rydym wedi rhagnodi cyfnod amser o wyth wythnos gyda darpariaeth ar gyfer rhywfaint o hyblygrwydd i estyn y cyfnod amser pan fo'r partïon yn gytûn.

17.10 Rydym wedi nodi'r sylwadau ychwanegol a wnaed mewn ymateb i'r cwestiwn hwn ynglŷn â sicrhau bod gan y SAB ddigon o adnoddau. Fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, rydym yn ymgysylltu'n ehangach ag awdurdodau lleol ynghylch y cymorth sydd ei angen i arfer swyddogaeth y SAB yn effeithiol.

**18. Cwestiwn 17: A ydych yn cytuno â'r diffiniad a gynigir o "system ddraenio gynaliadwy" at ddibenion dyletswydd y SAB i fabwysiadu? Os nad ydych, rhowch ddiffiniad arall os gwelwch yn dda.**

18.1 Gwnaethom gynnig, mewn perthynas ag amod 3 sy'n gysylltiedig â'r ddyletswydd mabwysiadu sydd gan SAB (gweler Cwestiwn 16), y dylid diffinio system ddraenio gynaliadwy mewn rheoliadau fel y rhannau hynny o system ddraenio nad ydynt yn cael eu breinio mewn ymgwymerwr carthffosiaeth. Dylai hyn roi sicrwydd ac eglurder o ran pa rannau o system ddraenio y gall y SAB eu mabwysiadu a pha rannau y gall yr ymgwymerwyr dŵr a charthffosiaeth eu mabwysiadu.

**Ffigur 18 – Ymatebion i Gwestiwn 17**



### Crynodeb o'r ymatebion

18.2 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn cefnogi ein cynnig. Fodd bynnag, gwnaed nifer o sylwadau defnyddiol a chodwyd cwestiynau am statws SuDS sy'n gwasanaethu eiddo unigol, cysylltiadau â draeniau priffyrdd, a'r gwahanol amserlenni ar gyfer mabwysiadu rhwng ymgwymerwyr carthffosiaeth, awdurdodau priffyrdd a'r SAB. Roedd y rheiny a oedd yn anghytuno yn ceisio eglurder ynghylch y rhyngweithio ag asedau a fabwysiedir gan yr ymgwymerwr carthffosiaeth neu ofyniad ychwanegol i'r diffiniad hefyd ei gwneud yn ofynnol i'r system ddraenio ddangos sut y bydd yn sicrhau nifer o fanteision.

18.3 Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

*"Mae'r diffiniad arfaethedig yn dderbyniol cyhyd â'i fod yn hollol eglur ac nad yw'n agored i'w ddehongli o ran pa rannau o system ddraenio nad ydynt yn gyfrifoldeb i ymgwymerwr carthffosiaeth."* Datblygwr

*"Mae pryderon ynghylch mabwysiadu'r datblygiad fel y'i hadeiladwyd. Gallai hyn fod yn wahanol i'r SuDS "y rhoddyd cymeradwyaeth i'w hadeiladu" ... dylai asesiad terfynol o'r system gael ei gwblhau gan y SAB cyn iddo roi cymeradwyaeth i'w mabwysiadu ."* Awdurdod lleol

*"Cytuno â'r diffiniad arfaethedig o system ddraenio gynaliadwy am ei fod yn darparu hyblygrwydd i'r corff mwyaf priodol fabwysiadu system sy'n seiliedig ar yr elfennau sy'n rhan ohoni."* Cwmni cyfleustodau

### Ymateb Llywodraeth Cymru


18.4 Rydym yn croesawu'r gefnogaeth i'r cynnig hwn. Gwnaeth rhai ymatebwyr ddefnyddio'u hymatebion i'r cwestiwn hwn i holi am systemau na fyddent yn gymwys i'w mabwysiadu.

18.5 Mae systemau sy'n gwasanaethu eiddo unigol (er enghraifft sy'n gwasanaethu tŷ unigol neu faes parcio archfarchnad) yn esempt rhag cael eu mabwysiadu o dan Atodlen 3 i Adran 18(1) a (2). Bydd systemau sy'n ffurfio rhan o briffordd yn cael eu cymeradwyo gan y SAB, ond byddant yn dod yn gyfrifoldeb i'r awdurdod priffyrdd yn hytrach na'r SAB (Atodlen 3 i Adran 19).

### 19. Cwestiwn 18: A ydych yn cytuno â'r esemptiadau a restrwyd i ddyletswydd y SAB i fabwysiadu? Os nad ydych, rhowch eglurhad os gwelwch yn dda.

19.1 Un o'r amodau y mae'n rhaid ei fodloni er mwyn i'r SAB fabwysiadu system ddraenio yw ei bod yn system ddraenio gynaliadwy. I'r perwyl hwn, gwnaethom gynnig y dylid diffinio system ddraenio gynaliadwy mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru fel y rhannau hynny o system ddraenio nad ydynt yn gyfrifoldeb i ymgymwrwr carthffosiaeth. Dylai hyn roi sicrwydd ac eglurder o ran pa rannau o system ddraenio y gall y SAB eu mabwysiadu a pha rannau y gall yr ymgymwrwr dŵr a charthffosiaeth eu mabwysiadu.

**Ffigur 19 – Ymatebion i Gwestiwn 18**



#### Crynodeb o'r ymatebion

19.2 Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a atebodd y cwestiwn hwn yn cytuno â'n cynnig. Fodd bynnag, mynegodd sawl un bryder ynghylch y rhyngweithio â swyddogaethau draenio priffyrdd, gan gynnwys datblygwyr ac awdurdodau lleol. Gwnaeth un ymateb roi sylw i'r hyn a ddisgrifir yn ddatblygu graddol, lle y gall newidiadau bach unigol gael effaith gynyddol.

19.3 Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

*"Gallai cynigion i ganiatáu i systemau trydydd parti gael eu cysylltu a'u mabwysiadu'n rhan o systemau draenio priffyrdd arwain at fwy o rwymedigaethau o ran cynnal a chadw a chostau i awdurdodau priffyrdd, ac ni fyddent yn cael eu cefnogi."* Awdurdod lleol

*"Dylai awdurdodau priffyrdd allu codi tâl felly am ddefnyddio eu hoffer, oherwydd llwythiadau ychwanegol ar eu systemau."* Awdurdod lleol

*"Mae risg gynhenid y bydd cyfrifoldeb sylweddol am gynnal a chadw'n cael ei drosglwyddo i'r awdurdod priffyrdd ... Byddai unrhyw drefn o'r fath yn arwain at drefn gymhleth lle y byddai'r awdurdod priffyrdd yn atebol am gyfrifoldebau cynnal a chadw na ellir codi tâl amdanynt." Awdurdod lleol*

*"Cafodd Atodlen 3 ei diwygio gan adran 21 o Ddeddf Dŵr 2014 i gynnwys esemptiad ychwanegol ar gyfer systemau a adeiladwyd gan yr ymgwymerwr carthffosiaeth o dan Adran 114A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991." Cwmni cyfleustodau*

*"...gallai system ddraenio gynaliadwy fod dan ranberchenogaeth rhwng y SAB a'r awdurdod priffyrdd yn y pen draw. Er ei bod yn bosibl y bydd y rhain ill dau'n dod o dan yr un awdurdod lleol, oherwydd y modd y mae gwahanol adrannau'n gweithredu ... gallai hyn arwain at anawsterau yn y dyfodol." Datblygwr*

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**


19.4 Er i'n cynnig gael ei gefnogi, mae diffyg dealltwriaeth ac eglurder ynghylch SuDS a draeniau ffyrdd yn amlwg yn y sylwadau a wnaed. Byddai'r dull gweithredu arfaethedig yn golygu bod SuDS sy'n rhan o ffordd fabwysiadwy yn cael eu rheoli gan yr awdurdod priffyrdd. Er enghraifft, byddai swyddogaeth briffyrdd yr awdurdod lleol yn gyfrifol am gynnal a chadw ffordd â phalmant hydraid; ni fyddai'n rhan o ddyletswydd y SAB. Gan y bydd yr awdurdod lleol yn gweithredu fel SAB ac awdurdod priffyrdd, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r ddwy swyddogaeth gydweithio er mwyn ymdrin â draenio datblygiadau newydd mewn ffordd fwy cyfannol.

19.5 Byddwn yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol trwy'n hymgyngoriad pellach er mwyn deall y rhwystrau ymddangosiadol a dod o hyd i ffyrdd o'u datrys.

**20. Cwestiwn 19: Nid ydym wedi cynnig canllawiau ar lefelau bondiau methu â chyflawni. A ydych yn meddwl bod angen canllawiau ar gyfer cyfrifo'r swm sydd ei angen ar gyfer bond methu â chyflawni? Rhwch resymau os gwelwch yn dda.**

20.1 Mae paragraff 12(6) o Atodlen 3 i'r Ddeddf yn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau ar sut i gyfrifo gwerth uchaf y bond methu â chyflawni. Roedd Cwestiwn 19 yn ceisio safbwyntiau ynghylch a fyddai canllawiau o'r fath o gymorth.

**Ffigur 20 – Ymatebion i Gwestiwn 19**



### **Crynodeb o'r ymatebion**

- 20.2 Roedd bron hanner yr holl ymatebwyr i'r ymgynghoriad hwn o'r farn bod angen canllawiau ar gyfrifo'r swm sydd ei angen ar gyfer bondiau methu â chyflawni. Roedd nifer sylweddol o'r ymatebion hyn yn nodi y byddai canllawiau o'r fath yn sicrhau cysondeb, gan roi eglurder, sicrwydd a thryloywder i ddatblygwyr, a lleihau'r posibilrwydd o anghytuno ar werth asedau.
- 20.3 Gwnaeth ychydig o dan chwarter yr holl ymatebwyr fethu ag ateb y cwestiwn hwn. Ni wnaeth nifer debyg ateb y cwestiwn yn uniongyrchol, ond cyflwynwyd sylwadau ychwanegol. Dywedodd rhai y gallai ymgeiswyr amcangyfrif costau ar gyfer asesiad gan y SAB.
- 20.4 Roedd nifer fach o ymatebwyr o'r farn nad oedd canllawiau'n angenrheidiol. Roedd un ymateb nad oedd yn cefnogi'r gofyniad am fond methu â chyflawni, gan leisio amheuan o ran yr effaith ar BBaChau. Roedd hyn yn wrthgyferbyniad i ymatebion eraill, a oedd yn nodi bod bondiau methu â chyflawni a phennu'r rhain ar y lefel gywir yn hanfodol ac y byddent yn cynorthwyo datblygwyr.
- 20.5 Gwnaed nifer o sylwadau ychwanegol. Roedd rhai ohonynt yn awgrymu y dylai canllawiau cenedlaethol, wrth iddynt gael eu darparu, ystyried amrywiadau rhanbarthol a thechnegau ar gyfer amcangyfrif costau asedau a hefyd ystyried sefyllfaoedd ar safleoedd penodol a chyd-destunau penodol. Roedd rhai'n awgrymu bod angen i ganllawiau egluro'r defnydd o'r bondiau methu â chyflawni mewn perthynas â pherfformiad gweithredol disgwylidiedig ased SuDS dros amser. Roedd eraill yn cefnogi'r bwriad o gael canllawiau ond yn teimlo y dylai'r mater hwn gael ei archwilio ymhellach gyda'r grŵp cynghori ar SuDS.
- 20.6 Cododd y themâu allweddol a ganlyn mewn ymateb i Gwestiwn 19:
- Cytundeb cyffredinol clir ar gyfer cael canllawiau ar gyfer cyfrifo'r swm sydd ei angen ar gyfer bondiau methu â chyflawni.
  - Cafwyd sylwadau y dylai'r canllawiau ystyried amrywiadau rhanbarthol a thechnegau ar gyfer amcangyfrif costau asedau a hefyd ystyried sefyllfaoedd ar safleoedd penodol a chyd-destunau penodol.



- Cafwyd sylwadau y byddai'n fuddiol archwilio ac ymgysylltu ymhellach wrth lunio canllawiau ar gyfer cyfrifo bondiau methu â chyflawni.

20.7 Roedd yrmatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

"Dylid darparu canllawiau i alluogi cysondeb ac osgoi risg i gyllideb datblygwyr, a gellid defnyddio'r canllawiau i hyrwyddo SuDS sydd â gwerth cyfalaf is a seilwaith 'mwy meddal'." Gweithiwr proffesiynol yn y sector

"Mae hyn yn hanfodol i sicrhau bod systemau'n cael eu hadeiladu'n gywir ... Mae'r egwyddor hon wedi cael ei defnyddio ers sawl blwyddyn wrth fabwysiadu ffyrdd." Awdurdod lleol

"Ar hyn o bryd, mae amrywiaeth yn yr amcangyfrifon o'r costau ar gyfer cyflenwi systemau draenio cynaliadwy. Mae amrywiaeth ar draws rhanbarthau ac yn y dechneg a ddefnyddir." Awdurdod lleol


### Ymateb Llywodraeth Cymru

20.8 Roedd cytundeb cyffredinol clir bod angen canllawiau ar gyfrifo bondiau methu â chyflawni. Yn ogystal, cafodd nifer sylweddol o sylwadau ychwanegol eu gwneud mewn ymateb i'r cwestiwn hwn. Roedd llawer ohonynt yn ymwneud â chwmpas a chynnwys y canllawiau. Rydym wedi nodi'r sylwadau a byddwn yn ymgysylltu'n ehangach yn ystod yr ymgynghoriad pellach hwn i ddatblygu canllawiau a sicrhau eu bod yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn addas i'r diben.

**21. Cwestiwn 20: A ydych yn cytuno y dylai cynllun cynnal a chadw gael ei gyflwyno gan y datblygwr gyda'r cais i'r SAB? A fydd y trefniadau arfaethedig hyn yn sicrhau systemau draenio cynaliadwy sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n effeithiol? Rhwch resymau os gwelwch yn dda.**

21.1 Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymatebwyr a oeddent yn cytuno y dylid cyflwyno cynllun cynnal a chadw gyda chais i'r SAB ac, os felly, a fyddai'n sicrhau system ddraenio a fyddai'n cael ei chynnal a'i chadw'n effeithiol.

**Ffigur 21 – Ymatebion i Gwestiwn 20**



## **Crynodeb o'r ymatebion**

21.2 Gwnaeth bron pawb a ymatebodd i'r ymgynghoriad ateb y cwestiwn hwn a chadarnhau eu bod yn cytuno y byddai cyflwyno cynllun cynnal a chadw gyda'r cais i'r SAB o gymorth i sicrhau bod systemau draenio cynaliadwy yn cael eu cynnal a'u cadw.

21.3 Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn nodi y byddai cynlluniau cynnal a chadw'n golygu y byddai modd gweithredu mewn ffordd fwy cyson ac y byddai mwy o hyder yn y broses gynllunio, a hynny oherwydd y byddai sylw digonol yn cael ei roi i fater cynnal a chadw. Dywedodd un ymatebwr y byddai cynllun cynnal a chadw'n rhoi sicrwydd i feddianwyr y byddai'r system yn effeithiol. Roedd nifer o ymatebion yn cyfeirio at y costau a fyddai'n gysylltiedig â'r cynllun cynnal a chadw, ac yn teimlo y byddai angen cytuno ar drefniant ariannu mewn partneriaeth â'r SAB.

21.4 Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

*"Ydyn, cytunir y byddai cynllun cynnal a chadw (a gyflwynir gan y datblygwr) yn rhan bwysig o'r broses ymgeisio i'r SAB. Byddai trefniant o'r fath 'o gymorth' i sicrhau systemau draenio sy'n cael eu cynnal a'u cadw."* Awdurdod lleol

*"Ydyn – mae hyn yn rhan annatod o'r broses cymeradwyo SuDS. Heb drefn cynnal a chadw sydd wedi'i hariannu'n llawn, ni fydd y nodwedd SuDS yn adlewyrchu'r saith nod llesiant a amlinellir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol nac egwyddorion y safonau anstatudol ar gyfer SuDS. I sicrhau cydymffurfiaeth, dylai'r gofyniad i gyflwyno strategaeth cynnal a chadw fod yn amod cyn datblygu. Bydd y datblygwr, wrth weithredu fel y cleient, mewn sefyllfa i werthuso cyfyngiadau'r safle a dylunio nodweddion SuDS priodol a chynaliadwy, ond dylai ystyried gofynion y corff mabwysiadu er mwyn sicrhau bod y dyluniad yn addas ar gyfer gwaith cynnal a chadw yn y tymor byr a'r tymor hir."* Awdurdod lleol


## **Ymateb Llywodraeth Cymru**

21.5 Mae'r ymatebion yn dangos cefnogaeth gref i'n cynnig i gyflwyno gofyniad i gyflwyno cynllun cynnal a chadw gyda'r cais i'r SAB. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid i ddatblygu'r cynnig hwn ac i roi rhagor o ystyriaeth i gostau ac opsiynau ar gyfer trefniadau ariannu.

## **22. Cwestiwn 21: Oes opsiynau cynnal a chadw eraill a allai fod yn ddichonadwy? Rhowch enghreifftiau o'u defnydd.**

22.1 Roedd y cwestiwn hwn yn gofyn i ymatebwyr roi enghreifftiau penodol o ddefnyddio opsiynau cynnal a chadw eraill.

**Ffigur 22 – Ymatebion i Gwestiwn 21**



**Crynodeb o'r ymatebion**

22.2 Nid oedd gan nifer fawr o'r ymatebwyr unrhyw dystiolaeth i gefnogi opsiynau cynnal a chadw eraill a allai fod yn hyfyw, ac ychydig yn unig o dystiolaeth a oedd ar gael i fwyafri bach ohonynt. Roedd sawl ymateb yn awgrymu y gallai gwaith cynnal a chadw ar waith/stwythurau SuDS gael ei wneud gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r SAB, fel yr awdurdod mabwysiadu ar gyfer trefniadau rheoli dŵr wyneb, fod yn gyfrifol am waith cynnal a chadw yn y dyfodol.

22.3 Roedd un sylw yn nodi bod cwmnïau dŵr a charthffosiaeth yn meddu ar bwerau'n barod ac mai nhw, felly, fyddai yn y sefyllfa orau i ysgwyddo'r cyfrifoldeb o gynnal a chadw systemau draenio eiddo, a dywedodd ymateb arall y dylai unrhyw ffioedd ar gyfer cynnal a chadw SuDS fod yn gost niwtral i breswylwyr / ddeiliaid tai.

22.4 Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

*"Dim opsiynau cynnal a chadw hyfyw amlwg eraill."* Gweithiwr proffesiynol yn y sector

*"Dylai rhwymedigaethau cynnal a chadw yn y dyfodol fod yng ngofal y SAB fel awdurdod mabwysiadu i osgoi 'meysydd annelwig' a dryswch."* Unigolyn

*"Cytundeb mabwysiadu rhwng y SAB a'r ymgwymerwr carthffosiaeth. Yn y sefyllfa hon, y pwerau a ddefnyddir gan yr ymgwymerwr carthffosiaeth fyddai orau er mwyn darparu trefniadau cynnal a chadw ar gyfer draenio ar lefel eiddo. Gallai'r awdurdod priffyrdd / y SAB fod yn gyfrifol am yr elfennau o'r asedau draenio sy'n weddill. Byddai angen cytuno ar drefniadau codi tâl rhwng y SAB a'r ymgwymerwr carthffosiaeth."* Awdurdod lleol

*"Gall yr opsiwn sy'n cynnwys mabwysiadu'r garthffos gan yr ymgwymerwr carthffosiaeth yn ei fusnes rheoledig gynnig yr opsiwn mwyaf boddhaol i'r cwsmer os gellir goresgyn yr anawsterau cyfreithiol. Mae'r canllawiau 'Carthffosydd i'w mabwysiadu' wrthi'n cael eu diweddarau a gallant fod yn sail i fabwysiadu SuDS fel carthffosydd. Nid yw'n glir sut y gallai datblygwyr gyfrannu at system ddraenio a114A. Efallai y bydd cyfle i ddatblygu dulliau ariannu mwy dyfeisgar, tebyg i arian partneriaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd, lle mae'r*

sawl sy'n elwa oherwydd cynllun yn gallu cyfrannu at y costau sy'n gysylltiedig ag ef. Byddai'n haws mabwysiadu hyn ar gyfer cynlluniau ôl-osod neu ar gyfer cyfraniadau at waith cynnal a chadw hirdymor." Gweithiwr proffesiynol yn y sector


### Ymateb Llywodraeth Cymru

22.5 Mae'r ymatebion yn dangos bod diffyg tystiolaeth i awgrymu opsiynau cynnal a chadw eraill a allai fod yn hyfyw er mwyn darparu system ddraenio gynaliadwy sy'n cael ei chynnal a'i chadw'n effeithiol. O hyn allan, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ymchwilio ymhellach i opsiynau cynnal a chadw a ariennir.

### 23. Cwestiwn 22: A ydych yn cytuno y byddai'r dull a gynigir yn osgoi cynnydd mewn costau cynnal a chadw i ddeiliaid cartrefi a datblygwyr? Rhowch resymau os gwelwch yn dda.

23.1 Rydym yn bwriadu sicrhau nad yw costau cynnal a chadw SuDS yn arwain at gynnydd ym miliau cartrefi neu, wrth dalu ymlaen llaw, yng nghostau cartref newydd o'i gymharu â system ddraenio gonfensiynol. Roedd y cwestiwn hwn yn ceisio safbwyntiau am effaith bosibl SuDS ar filiau cwsmeriaid.

Ffigur 23 – Ymatebion i Gwestiwn 22



### Crynodeb o'r ymatebion

23.2 Nododd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr nad oeddent yn cytuno neu'n anghytuno â'r cwestiwn hwn, gyda sawl un ohonynt yn dweud nad oeddent yn gwybod am unrhyw opsiynau eraill ar hyn o bryd. Roedd ychydig o dan hanner yr ymatebwyr yn cytuno y byddai'r dull gweithredu arfaethedig, yn gyffredinol, yn osgoi costau uwch ar gyfer deiliaid cartrefi a datblygwyr.

23.3 Roedd nifer fawr o ymatebwyr yn teimlo nad oeddent yn gallu rhoi ymateb neu sylw oherwydd diffyg tystiolaeth, gydag un awdurdod lleol yn dweud y gallai costau amrywio, gan ddibynnu ar y math o SuDS a ddefnyddir.

23.4 Roedd nifer fach o ymatebwyr yn anghytuno y byddai'r dull gweithredu arfaethedig yn osgoi costau uwch am nad oedd ganddynt unrhyw dystiolaeth na fyddai'r costau'n cael eu trosglwyddo i ddeiliaid tai.

23.5 Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

*"Ydyn, does dim rheswm dros gredu y byddai eich dull gweithredu arfaethedig yn arwain at gostau cynnal a chadw uwch." Gweithiwr proffesiynol yn y sector*

*"Ydyn. O'r dystiolaeth a ddarparwyd yn y ddogfen ymgynghori ac adroddiad EPS, mae arwydd cryf y dylai costau cyffredinol ar gyfer gwaith adeiladu a chynnal a chadw hirdymor fod yn is pan fo system draenio SuDS yn cael ei gosod. Ond a fyddai'r arbediad o £9,000 mewn costau adeiladu ar gyfer pob cartref newydd yn cael ei adlewyrchu mewn gwirionedd yn y pris ar gyfer prynwyr tai newydd? Yn amlwg, byddai hyn yn cael effaith sylweddol o ystyried costau bywyd cyfan neu 'totex' ar gyfer perchennog y cartref." Gweithiwr proffesiynol yn y sector*

*"Byddai'r dull gweithredu arfaethedig yn debygol o arwain at gynnal y status quo. Ar hyn o bryd, yr ymgymwrwr carthffosiaeth sy'n cael yr ardrethi dŵr wyneb a godir ar berchennog yr eiddo. Gallai gweithredu datrysiadau SuDS olygu bod y gost hon yn cael ei throsglwyddo i'r corff cynnal. Mae'n debygol y byddai symiau gohiriedig yn parhau i gael eu codi ar ddatblygwyr. Lle cynigir systemau SuDS â gofynion cynnal a chadw llai, mae hynny'n debygol o arwain at symiau gohiriedig is/tebyg. Fodd bynnag, gan ddibynnu ar y cynnig, gallai fod cynnydd hefyd mewn symiau gohiriedig. Rhaid i unrhyw drefn codi tâl / swm gohiriedig dalu am gostau cynnal a chadw'r system briodol. Dylid darparu canllawiau ar drefniadau codi tâl / cyfrifo symiau gohiriedig." Gweithiwr proffesiynol yn y sector*

## **Ymateb Llywodraeth Cymru**


23.6 Ni wnaeth y rhan fwyaf o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ateb y cwestiwn hwn. Fodd bynnag, awgrymodd nifer o'r awdurdodau lleol, ar sail yr wybodaeth ategol a ddarparwyd yn yr ymgynghoriad, y byddai'r dull gweithredu arfaethedig, ar y cyfan, yn osgoi cynnydd mewn costau cynnal a chadw.

23.7 Rydym wedi nodi sylwadau ynglŷn â'r angen i sicrhau bod gwaith cynnal a chadw SuDS yn cael ei ariannu'n ddigonol ar gyfer oes gyfan y system er mwyn lliniaru perygl llifogydd yn effeithiol a sicrhau amryfal fuddion, ac er mwyn sicrhau nad yw costau i'r corff cynnal a chadw'n cynyddu costau i ddeiliaid tai.

## **24. Cwestiwn 23: Pa dystiolaeth sydd gennych o gostau cynnal a chadw disgwylidig?**

24.1 Mae'r dystiolaeth sydd gennym yn dangos bod SuDS ar y cyfan yn rhatach i'w hadeiladu, a bod cynnal a chadw SuDS ar gyfartaledd yn llai costus (neu nid oes angen iddynt fod yn ddrytach) na'r gost o gynnal a chadw systemau draenio confensiynol ar hyn o bryd. Roedd y cwestiwn hwn yn ceisio tystiolaeth ychwanegol ar gostau cynnal a chadw.

**Ffigur 24 – Ymatebion i Gwestiwn 23**



### **Crynodeb o'r ymatebion**

- 24.2 Eglurodd ychydig dros draean o'r holl ymatebwyr nad oedd digon o dystiolaeth ar gael i'w galluogi i wneud penderfyniad deallus ynghylch costau cynnal a chadw disgwylidig.
- 24.3 Fodd bynnag, gwnaeth un ymateb ddyfynnu ymchwil annibynnol a gomisiynwyd gan Defra a ganfu nad oedd costau cynnal a chadw, ar gyfartaledd, yn uwch na'r rheiny ar gyfer systemau draenio dŵr wyneb â phibellau confensiynol, ond awgrymodd ymateb arall fod costau cynnal a chadw yn uwch o lawer ar gyfer awdurdod lleol sydd wedi mabwysiadu system SuDS nag ar gyfer cwmni rheoli preifat.
- 24.4 Roedd yr ymatebion yn cynnwys y sylwadau a ganlyn:

*"Bydd y rhain yn amrywio o brosiect i brosiect, ond maent yn gymharol hawdd i'w cyfrifo ar gyfer unrhyw senario benodol."* Busnes.

*"Nid oes tystiolaeth uniongyrchol."* Gweithiwr proffesiynol yn y sector

*"Canfu ymchwil annibynnol a gomisiynwyd gan Defra nad oedd costau cynnal a chadw, ar gyfartaledd, yn uwch na'r rheiny ar gyfer systemau draenio dŵr wyneb â phibellau confensiynol. Trwy drafod â datblygwyr ac asiantiaid rheoli gwasanaethau, gall y ffigurau gwirioneddol ar gyfer cynnal a chadw rhai systemau SuDS o fewn manau agored a reolir fod yn is o lawer (enghraifft nodweddiadol oedd oddeutu £6 yr eiddo y flwyddyn)."* Corff anllywodraethol amgylcheddol

### **Ymateb Llywodraeth Cymru**

- 24.5 Gwnaed llawer o waith yn y blynyddoedd diwethaf i feintoli costau cynnal a chadw SuDS yn y DU. Mae'n amlwg nad oes gan randdeiliaid wybodaeth ddigonol o'u gweithrediadau eu hunain i wella ein dealltwriaeth neu ddarparu tystiolaeth sy'n fwy penodol i Gymru.

24.6 Fodd bynnag, mae sawl ymateb yn awgrymu, er bod rhywfaint o dystiolaeth gyfyngedig ar gael, nad ydynt wedi bod ar waith yn ddigon hir i gasglu digon o wybodaeth i asesu'n gywir costau bywyd cyfan.

24.7 Awgrymodd un ymateb y gallai costau amrywio o'r naill safle i'r llall a thros amser. O'r herwydd, ni ellir darparu amcangyfrif cyson o gostau ar hyn o bryd.

## Casgliadau a'r camau nesaf

26. Hanner deg saith o ymatebion i law, a'r rhan fwyaf ohonynt gan awdurdodau lleol. Roedd ymatebwyr eraill yn cynnwys cyrff masnach, cyrff anllywodraethol amgylcheddol a chyrff proffesiynol, yn ogystal â sawl unigolyn. Roedd y rhan fwyaf yn cefnogi amcanion yr ymgynghoriad ac yn credu bod y bwriad i roi SuDS ar waith yn gam pwysig ymlaen, oherwydd y byddai'n rhoi eglurder a sicrwydd i ddatblygwyr ac awdurdodau lleol, ac yn arwain at fuddion ehangach i'n cymdeithas a'n hadnoddau naturiol. Roedd y rhan fwyaf yn cefnogi'r farn nad oedd gweithredu ar sail wirfoddol yn arwain at ganlyniadau boddhaol, ac na allai wneud hynny ychwaith, ac mai dim ond gofyniad statudol a fyddai'n effeithiol. Dywedodd nifer fod angen gwneud hynny ar fyrder.
27. Felly, rydym wedi defnyddio'r ddogfen hon nid yn unig i grynhoi ymatebion i'r ymgynghoriad a'r camau a gymerwyd gennym o ganlyniad iddo, ond i symud ymlaen ag ymgynghoriad ar yr offerynnau statudol a fydd yn gweithredu Atodlen 3. Ceir manylion yn Rhan 2 o'r ddogfen hon